Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru
National Youth Arts Wales

# Adroddiad Argymhellion Sesiynau Datblygu Celfyddydau Ieuenctid

Gan Gelfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru mewn partneriaeth â Rhwydwaith Celfyddydau Ieuenctid Cymru, comisiynwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru

Medi 2021

## Cynnwys:


1. Cyflwyniad a Chefndir
    i. Staffio
    ii. Recriwtio Cyfranogwyr a Gwaith Maes
    iii. Mynediad a Chynhwysiant
    iv. Methodoleg y Sesiynau
2. Argymhellion Allweddol
    i. Rhwydwaith a Llais Ieuenctid
    ii. Cyllid Celfyddydau Ieuenctid
    iii. Camau nesaf
3. Atodiadau
    i. Astudiaethau Achos Hwyluswyr Ifanc
    ii. Nodiadau Sesiwn 1
    iii. Nodiadau Sesiwn 2
    iv. Nodiadau Sesiwn 3

# Cyflwyniad a Chefndir

Ffurfiwyd **Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru** yn 2017 i ddwyn ynghyd chwe gwahanol ensemble cenedlaethol ieuenctid Cymru. Yn ogystal â chynnig aelodaeth a chyrsiau preswyl blynyddol i actorion, dawnswyr a cherddorion y dyfodol yng Nghymru, yn cynnwys cronfa bwrsariaethau sylweddol, mae Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn cynnal nifer o brosiectau datblygu er mwyn darparu llwybrau ar gyfer ystod eang o bobl ifanc i gynyddu eu hyder, creadigedd, dyhead ac uchelgais ac i ddatblygu eu hymgysylltiad oes gyda'r celfyddydau. Bellach, mae CCIC yn canolbwyntio'n benodol ar waith sy'n cynyddu cyfranogaeth gan bobl ifanc talentog o gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol yng Nghymru. Mae Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod pobl ifanc wrth galon y sefydliad, gan gynnig yn flynyddol nifer o rolau cyflogedig i gynhyrchwyr dan hyfforddiant a neilltuir ar gyfer pobl ifanc o gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae'r sefydliad hefyd wedi ymgymryd â darn o waith tymor hir a ddyluniwyd i wreiddio llais ieuenctid yn llawn ar bob lefel o'r sefydliad er mwyn sicrhau bod llwybrau i mewn i'r Ensembles Cenedlaethol yn fwy cynhwysol a hygyrch.

**Rhwydwaith Celfyddydau Ieuenctid Cymru** yw'r Rhwydwaith Cymru Gyfan sy'n dwyn ynghyd weithwyr celfyddydau ieuenctid, egin-artistiaid, myfyrwyr a'r cwmnïau celfyddydau allweddol yng Nghymru sy'n gweithio gyda phobl ifanc. Maent yn eiriol dros gelfyddydau ieuenctid trwy grŵp llywio cynrychiadol o Gymru gyfan i ddatblygu strategaeth tymor hir ar gyfer RhCIC a Chelfyddydau Ieuenctid yng Nghymru. Am dair blynedd fe gefnogon nhw RawFfest, gŵyl Celfyddydau Ieuenctid Cenedlaethol ar gyfer a gan bobl ifanc. Mae'r rhwydwaith yn bodoli i ddysgu oddi wrth ein gilydd, i gynyddu proffil gwaith celfyddydau ieuenctid a brwydro dros sector y maent yn credu'n angerddol ynddo.

Ym mis Tachwedd 2020, anfonwyd llythyr ar y cyd oddi wrth Gelfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru (CCIC) a Rhwydwaith Celfyddydau Ieuenctid Cymru (RhCIC) at Nick Capaldi a Diane Hebb yng Nghyngor Celfyddydau Cymru (CCC), yn amlinellu pryderon sylfaenol am ddyfodol y sector Celfyddydau Ieuenctid yng Nghymru; yn ymwneud yn bennaf â chanlyniadau dinistriol Covid-19 ar bobl ifanc yng Nghymru a'r sector Celfyddydau Ieuenctid. Pwysleisiodd ddiffyg hanesyddol adnoddau ar gyfer Celfyddydau Ieuenctid, effaith y pandemig ar lesiant pobl ifanc a'u huchelgeisiau i'r dyfodol i ddilyn gyrfa yn y celfyddydau, a'r diffyg llais gafodd pobl ifanc hyd yma yn y drafodaeth yn ystod y pandemig.

At ddiben yr adroddiad hwn a'r gwaith a gyflawnwyd, cyfeirir at Gelfyddydau Ieuenctid yn fras fel gweithgareddau celfyddydol y bydd pobl ifanc yn dewis cyfranogi ynddynt o'u gwirfodd, yn eu hamser eu hunain, yn hytrach na chymryd rhan ynddynt fel rhan o gwricwlwm ysgol.

Ym mis Mawrth 2021, mewn ymateb i'r pryderon cyffredin hyn, derbyniodd CCIC a RhCIC wahoddiad gan CCC i gynnal cyfres o dri sesiwn ymgynghori ar-lein gyda phobl ifanc, sefydliadau celfyddydau ieuenctid, ac ymarferwyr. Roedd y nodau a'r deilliannau dymunol ar gyfer y sesiynau hyn, a gytunwyd gan CCC, CCIC a RhCIC, fel a ganlyn:

### Deilliannau

- Archwilio dichonoldeb a'r angen am fforwm ieuenctid yng Nghymru i ddylanwadu ar ac i hysbysu polisi (Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru)
- Yr ymgynghorir gyda'r sector ar ddyfodol cyllid loteri ar gyfer celfyddydau ieuenctid oherwydd y pryderon sy'n wynebu pobl ifanc yn y sector celfyddydau a chelfyddydau ieuenctid. Anghenion y bobl ifanc sy'n arwain y drafodaeth.

### Nodau'r sesiynau

- Creu lle, ar y cyd, i drin a thrafod materion llosg a phryderon allweddol sy'n wynebu'r sector celfyddydau ieuenctid yng Nghymru
- Caniatáu ar gyfer trafodaeth sy'n ffocysu ar ddatrysiadau am sut y gallai ac y dylai sector celfyddydau ieuenctid ôl-Covid edrych.

*'Dwi'n credu bod sgwrsio'n wych, ond ry'n ni'n genedl o siaradwyr ac weithiau gallwn ymgolli'n llwyr mewn siarad am bethau, ac mae gweithredu'n wych hefyd. Ac yna dal pobl yn atebol pan na fydd gweithredu'n digwydd.'* **Cyfranogwr Sesiwn 1**

## Staffio

Gyda chefnogaeth gan RhCIC, CCIC arweiniodd ar reoli a threfnu'r sesiwn, dan arweiniad Naomi McKenna Lawson, Cynhyrchydd Cyfranogiad a Dysgu CCIC. Cytunodd CCIC, RhCIC a CCC ar strwythur staffio llawrydd o dri ymarferydd celfyddydol i drosglwyddo'r sesiynau, yn ogystal â 6 rôl hwylusydd cyflogedig ychwanegol ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 - 25 oed er mwyn sicrhau bod llais ieuenctid wedi ei wreiddio yn y broses o'r cychwyn cyntaf. Y tri ymarferydd celfyddydol oedd:

- Jain Boon (Cyfarwyddwraig Theatr Lawrydd ac Ymarferydd Creadigol Celfyddydau ac Iechyd)
- Elgan Rhys* (Awdur, Cyfarwyddwr, Perfformiwr)
- Sita Thomas (Gwneuthurwraig Theatr, Cyflwynydd Teledu a Chyfarwyddwraig Artistig newydd Fio)

**Siaradwr Cymraeg*

Daeth yr ymarferwyr at ei gilydd gyda Chynhyrchydd Cyfranogiad a Dysgu CCIC am gyfarfod cychwynnol, gan gytuno ar fraslun ar gyfer pob sesiwn a'r prif bwyntiau ffocws ar gyfer pob gweithdy. Cytunwyd hefyd ar restr o hwyluswyr iau i'w gwahodd

i'r sesiynau. Cytunwyd ei bod yn bwysig sicrhau bod y grŵp hwn o hwyluswyr yn dod o gefndiroedd amrywiol ac yn sicrhau cynrychiolaeth amrywiol. Y chwe hwylusydd a ymunodd â'r panel oedd:

- Hannah Lad (actor, awdur, cyd-sylfaenydd Off Ya Trolley Productions a chyn-gyfranogwraig yn Sparc Arts)
- Eden-Mae Davies (aelod o Theatr Ieuenctid Caerffili a Gweithiwr Ieuenctid)
- Fahadi Mukulu (Cyfarwyddwr Cyswllt gyda National Theatre Wales a Theatr Common Wealth)
- Jannat Ahmed (Swyddog Tanysgrifio a Marchnata gyda Poetry Wales, a Phrif-olygydd Lucent Dreaming)
- Dyddgu Glyn Jones* (actor ac aelod o Theatr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru)
- Safyan Iqbal (gwneuthurwr ffilmiau, ffotograffydd, dyn camera, golygydd fideo, actor, pod-ddarlledwr, cerddor)

**Siaradwraig Cymraeg*

Gwahoddwyd yr hwyluswyr ifanc i gyd-drosglwyddo sesiynau un a thri. Gofynnwyd i'r hwyluswyr ifanc fynychu sesiwn dau i adrodd yn ôl ar eu canfyddiadau o sesiwn un. Yn ogystal, gofynnwyd i'r grŵp hwn fynychu cyfarfodydd cynllunio ac adrodd yn ôl, er mwyn sicrhau eu bod yn helpu i ffurfio cynnwys y sesiynau ac fel bod llais ieuenctid wedi ei wreiddio'n gadarn trwy'r broses gyfan.

## Recriwtio Cyfranogwyr a Gwaith Maes

Gweithiodd CCIC a RhCIC gyda'i gilydd i ddynodi sefydliadau a gweithwyr llawrydd i gysylltu â hwy ynghylch y sesiynau. Gan weithio'n unol â'r canllawiau data perthnasol, rhannodd y tri sefydliad partner gysylltiadau o'u rhwydweithiau er mwyn sicrhau cynrychiolaeth eang o'r sector a ledled Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys canolfannau a sefydliadau celfyddydau lleol a chenedlaethol, grwpiau celfyddydau ieuenctid a grwpiau cymunedol. Roedd y rheini a wahoddwyd yn cynnwys:

*Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Asiant er Newid CCC, Afon Community Dance, Artis Community Cymuned, Arts Connection - Cyswllt Celf, Avanc - Trac Cymru, Ballet Cymru, Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, Sefydliad y Glowyr y Coed Duon, Bombastic, Clwb Ieuenctid Butetown, Canolfan Gerdd William Mathias Cyf, Canolfan Ucheldre Center, Gwasanaeth Cerdd Caerdydd a'r Fro, Chapter Cardiff Ltd., Citizens Cymru, Cerdd Gymunedol Cymru, Creative and Cultural Skills, Cwmni Frân Wen, CWVYS (Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol), Dawns i Bawb, Cerdd Cydweithredol Sir Ddinbych, Ensemble Cymru, EYST, Ffilm Cymru Wales, Ffotogallery, Gwasanaeth Cerdd Sir y Fflint / CAGAC, Fio Theatre, g39, Galeri Caernarfon Cyf, Gentle / Radical, G-Expressions, Oriel Gelf Glynn Vivian, Pafiliwn Grange, Grassroots CF10, Hafren, Celf ar y Blaen, Theatr Hijinx, Hummadruz, Impelo, Jukebox Collective, Cynyrchiadau Leeway Productions / Darlithydd Y Drindod Dewi Sant, Llenyddiaeth Cymru, Live Music Now Wales, Canolfan y Celfyddydau Llantarnam Grange, Menter Iaith Merthyr / Theatr Soar, Opera Canolbarth Cymru, Ministry of Life, Oriel Mission, MOSTYN, Music Theatre*

*Wales, Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, NEW Dance, Casnewydd Fyw, NoFit State Community Circus Ltd, Gŵyl Gerdd Ryngwladol Gogledd Cymru, National Theatre Wales, Omidaze, Operasonic, Oriel Davies Gallery, Ymddiriedolaeth Oriel Myrddin, Peak Cymru, Canolfan Celfyddydau Pontardawe, Pontio, Rain Drop, Rubicon Dance, Canolfan Grefft Rhuthun, Conservatoire Iau CBCDC, Theatr Sherman, Sinfonia Cymru, Sistema Cymru - Codi'r To, Sound Progressions, MAD Abertawe, Taking Flight Theatre, Canolfan Celfyddydau Taliesin, The Aloud Charity, Theatr Arad Goch, Theatr Clwyd, Theatr Cynefin, Theatr Genedlaethol Cymru, Theatr Iolo, Theatr Na nOg, Tin Shed Theatre / Theatr Ieuenctid Riverfront, Upbeat Music and Arts, Urdd Gobaith Cymru, Canolfan Mileniwm Cymru, RhCIC, YAS, Cerddorion Ifanc Dyfed, Youth Cymru, Fforwm Ieuenctid Pafiliwn Grange.*

Yn ogystal, anfonwyd gwahoddiadau at weithwyr llawrydd a sefydliadau sy'n rhan o aelodaeth RhCIC ar hyn o bryd. Aeth pob un o'r ymarferwyr a'r hwyluswyr ati'n weithredol hefyd i rannu manylion cofrestru gyda'u rhwydweithiau hwythau.

Cefnogwyd y gwahoddiadau gan staff cyfathrebiadau CCIC, a ddefnyddiodd ymgyrch e-bost wedi ei brandio. Gofynnwyd i sefydliadau a gweithwyr llawrydd a dderbyniodd e-bost i gofrestru am le ar y sesiynau ac fe'u hanogwyd i raeadru'r wybodaeth i'w rhwydweithiau ac i enwebu pobl ifanc i gofrestru ar gyfer sesiynau un a thri.

Wrth benderfynu ar y strategaeth ar gyfer ymgysylltu gyda phobl ifanc, cytunwyd yn unfryd y dylai'r bobl ifanc gafodd eu recriwtio gynrychioli amrywiaeth o gefndiroedd cymdeithasol a daearyddol, ynghyd ag ystod eang o ddiddordebau a disgyblaethau. O ystyried y pynciau arfaethedig, nodau a deilliannau'r sesiynau, penderfynwyd y dylid targedu pobl ifanc sydd eisoes yn ymwneud â'r sector mewn rhyw fodd i gydweithio gyda ni. Cytunwyd hefyd mai pobl ifanc 16 - 25 oed fyddai'r ystod oedran i'w thargedu ar gyfer y sesiynau.

Datblygwyd cynllun cyfathrebu ar gyfer recriwtio a'i drosglwyddo rhwng RhCIC a CCIC, yn cynnwys cyfuniad o ymgyrchoedd e-bost, negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol ac e-byst unigol wedi eu targedu.

| **Sesiwn** | **Nifer a gofrestrodd** | **Nifer a fynychodd** |
|---|---|---|
| Sesiwn 1 | 21 (person ifanc 16 – 25 oed) | 14 (person ifanc 16 – 25 oed) |
| Sesiwn 2 | 44 (sefydliad a gweithwyr llawrydd) | 28 (sefydliad a gweithwyr llawrydd) |
| Sesiwn 3 | 42 (sefydliad, gweithwyr llawrydd a phobl ifanc) | 25 (sefydliad, gweithwyr llawrydd a phobl ifanc) |

**Mynediad a Chynhwysiant**

Clustnodwyd cyllideb o £800 i ddarparu cymorth ariannol i bobl ifanc na fyddent, efallai, yn gallu mynychu fel arall, a rhoddwyd lle amlwg i'r neges hon yn y strategaeth gyfathrebu.

Fel mesur i hyrwyddo cynhwysiant, roedd y gronfa hon ar gael ar sail dim cwestiynau, a gallai pobl ifanc un ai e-bostio CCIC yn uniongyrchol, neu nodi ar y ffurflen gofrestru eu bod angen cymorth ariannol i allu mynychu.

Yn ogystal â sicrhau bod hwyluswyr sy'n siarad Cymraeg yn rhan o'r tîm trosglwyddo, trefnwyd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd hefyd ar gyfer y tri sesiwn.

Yn ogystal, cyflogwyd cyfieithwyr Iaith Arwyddion Prydain ar gyfer yr ail a'r trydydd sesiwn, yn ogystal â chyfieithu Llais i Destun, er mwyn darparu ar gyfer anghenion mynediad cyfranogwyr ac un o'n hwyluswyr. Defnyddiwyd cyfieithu BSL hefyd ar gyfer unrhyw gyfarfodydd cynllunio ac adrodd yn ôl a fynychwyd gan yr hwylusydd penodol hwnnw. Anogwyd pob cyfranogwr i ddisgrifio unrhyw anghenion mynediad wrth gofrestru ar gyfer y sesiynau, gan ganiatáu inni drefnu unrhyw gefnogaeth arbenigol angenrheidiol.

## Methodoleg y Sesiynau

Cynlluniwyd y sesiynau ar y cyd rhwng CCIC a'r tîm trosglwyddo cyfan ac fe'u dyluniwyd i ymateb ac addasu i'r sgyrsiau fyddai'n datblygu. Wedi eu hangori ym methodoleg Celfyddydau Ieuenctid, defnyddiwyd trafod myfyriol ac ymgysylltu creadigol i hwyluso gofodau cynhwysol oedd yn gosod y cyfranogwr yn y canol, er mwyn caniatáu gwrandawiad i lais y cyfranogwyr.

**Sesiwn Un - Dydd Iau 8fed Gorffennaf, 5 - 7.15pm**
*Ar gyfer pobl ifanc 16 – 25 oed*
*Nodau:*

- *I greu gofod ymlaciol, agored i gyfranogwyr rannu eu barn*
- *I glywed gan gyfranogwyr am sut y maent yn ymgysylltu gyda'r Celfyddydau, a sut mae Covid wedi effeithio ar hyn*
- *I glywed gan gyfranogwyr sut y maen nhw'n meddwl y dylai'r Celfyddydau edrych ar ôl y pandemig*
- *I ddarparu gwybodaeth ar enghreifftiau o fentrau llais ieuenctid (bwrdd ieuenctid, grŵp llywio ieuenctid, fforwm ieuenctid) a sut y mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn cefnogi Celfyddydau Ieuenctid ar hyn o bryd*
- *I glywed gan gyfranogwyr sut y maen nhw am i bobl mewn grym, fel CCC, ymgysylltu mwy gyda nhw*

**Sesiwn Dau – Dydd Iau 15fed Gorffennaf, 4 – 6.30pm**
*Ar gyfer sefydliadau a gweithwyr llawrydd*

*Nodau:*

- *I sefydlu gofod agored ac ymlaciol i gyfranogwyr rannu eu barn a'u sylwadau*
- *I annog sefydliadau a gweithwyr llawrydd i gyflwyno sylwadau ar sut gafodd eu gwaith ei effeithio gan Covid, a pha gymorth y maent ei angen gan CCC yn y dyfodol*
- *I ddechrau dynodi'r anghenion a'r gofynion sylfaenol ar gyfer cyllid loteri penodol ar gyfer Celfyddydau Ieuenctid*
- *I annog cyfranogwyr i gofrestru ar gyfer y sesiwn olaf ac i barhau â'r sgwrs*

**Sesiwn Tri - Dydd Mawrth 27ain Gorffennaf, 5 – 7.30pm**
*Ar gyfer sefydliadau, gweithwyr llawrydd, pobl ifanc 16 – 25 oed*
*Nodau:*

- *I greu gofod ymlaciol, agored i gyfranogwyr rannu eu sylwadau*
- *I archwilio ymhellach y syniadau a'r heriau a drafodwyd yn y ddwy sesiwn flaenorol*
- *I ddynodi meysydd argymhellion ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru*
- *I ddynodi'r camau nesaf yr ydym am eu gweld gan Gyngor Celfyddydau Cymru*

# Argymhellion Allweddol

Er mwyn sicrhau bod yr argymhellion wedi codi'n naturiol o'r sgyrsiau a gafwyd dros y tri sesiwn, cafodd y seisynau Zoom eu recordio a'u trawsgrifio. Hysbyswyd pob cyfranogwr y byddai'r sesiynau'n cael eu recordio a rhoddwyd cyfle iddynt hysbysu CCIC neu'r tîm trosglwyddo os nad oeddent am gael eu recordio. Mae'r holl ymatebion a gofnodwyd ac a gyhoeddir yn yr adroddiad hwn yn ddienw, oni bai ein bod wedi derbyn eu caniatâd pendant.

Er mwyn mwyafu adborth, yn ogystal â chynhyrchu trawsgrifiadau a nodiadau o bob sesiwn, cynhaliodd y tîm trosglwyddo gyfarfod gwerthuso ac adrodd yn ôl. Cyfarfu CCIC ar wahân gydag unrhyw unigolion nad oeddent ar gael ar gyfer y cyfarfod hwn, er mwyn sicrhau ein bod yn cynnwys eu sylwadau yn y nodiadau adrodd yn ôl.

Er gwaethaf ehangder a dyfnder y trafodaethau a gafwyd, esboniwyd wrth y cyfranogwyr i gyd mai dim ond y dechrau oedd y sesiynau ar-lein hyn, yn hytrach na diwedd y sgwrs. Sgwrs, yr hyderir fydd yn trosi'n weithredu cadarnhaol er mwyn sicrhau sector Celfyddydau Ieuenctid mwy cynaliadwy, hygyrch a chynhwysol yng Nghymru.

O ystyried y nodau a'r deilliannau gwreiddiol a gytunwyd gan CCIC, RhCIC a CCC, byddwn yn dynodi argymhellion allweddol yn y meysydd canlynol, yn tarddu o brif themâu a gododd yn rheolaidd o'r trafodaethau hyn:

- Rhwydweithiau a Llais Ieuenctid
- Cyllido Celfyddydau Ieuenctid

- Camau Nesaf

## Rhwydwaith a Llais Ieuenctid: Crynodeb o'r Argymhelliad Allweddol

Yn y sesiwn cyntaf gyda'r bobl ifanc, un o'r prif gwestiynau a godwyd oedd 'Sut ydych chi am i'ch llais gael ei glywed gan sefydliadau fel Cyngor Celfyddydau Cymru, sydd a'r pŵer dros ba sefydliadau a phrosiectau gaiff eu cyllido?'

Cafwyd cytundeb cyffredinol bod angen i Gyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru wneud mwy i gymryd anghenion pobl ifanc o ddifrif a'u gosod yn uwch ar yr agenda, fel gwrando ar bobl ifanc, meithrin gwell cysylltiadau sy'n gosod pobl ifanc wrth galon gwaith a chyllid mwy hyblyg a digyfyngiad ar gyfer prosiectau gyda phobl ifanc. Fodd bynnag, barn allweddol arall a fynegwyd oedd '***Nid ein cyfrifoldeb ni yw sicrhau newid o hyd***'.

Yn hytrach, soniodd y cyfranogwyr eu bod eisiau rhwydwaith i bobl ifanc gysylltu â chydweithio gyda'i gilydd yn ogystal â chefnogi eu hymgysylltiad a'u gyrfaoedd yn y celfyddydau trwy gymorth, gwybodaeth ac adnoddau.

Yn union wedi'r sesiwn, nododd un o'r hwyluswyr ifanc:

*'Mae'n ddiddorol mae'r hyn ddaeth allan o hynna yw eu bod jest eisiau bod gyda'i gilydd - maen nhw jest eisiau cydweithredu a gweithio gyda'i gilydd a dim bod yna i ddatrys problemau, a dwi'n gallu uniaethu gyda hynna. Nawr bod rhywun arall wedi ei ddweud, ddylai'r pwysau ddim bod ar bobl ifanc i ddatrys y problemau, yn enwedig os nad ydyn nhw'n cael eu talu. Jest cynnig rhwydwaith neu gymuned y gallan nhw fod yn rhan ohoni, waeth pwy ydych chi, ble bynnag ydych chi yng Nghymru. Dwi'n gyffrous ynghylch hynny oherwydd, fel ddwedon nhw, am iechyd meddwl - ry'ch chi angen eich grŵp cyfoedion, a ry'n ni gyd yn manteisio ar y ffaith bod gennym ni grwpiau cyfoedion oherwydd ry'n ni'n rhan o sefydliadau sy'n rhan o grwpiau eraill ac rydych chi'n cael cwrdd gyda phobl eraill ac mae gennych chi rwydwaith cefnogol'.*

Yn y cyfarfodydd cynllunio a'r sesiynau trosglwyddo dilynol, rhoddwyd ffocws ar sut y gallem daro cydbwysedd rhwng y syniad o rwydwaith ar gyfer pobl ifanc, ochr-yn-ochr â sicrhau bod platfform ble rhoddir gwrandawiad i'w llais a'i fod yn ganolog i benderfyniadau a wneir gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

### Y Rhwydwaith

Mae Celfyddydau Ieuenctid yn amlweddog ac mae'n gweithio gydag ystod eang o bobl ifanc mewn llu o wahanol ffyrdd. Fel y dywedodd un o'r cyfranogwyr:

*'Mae gyda chi gelfyddydau ieuenctid cyfranogol, sy'n canolbwyntio llawer mwy ar lesiant ac ar sgiliau trosglwyddadwy trwy'r celfyddydau fel cyfrwng ar gyfer hynny, ac*

*yna mae gyda chi gelfyddydau sydd yn ymwneud â meithrin talent a datblygu hynny… mae gyda chi gategorïau oedran anferthol, mae 11 - 16 yn gwbl wahanol, ac mae hyd yn oed 16 - 20 yn gwbl wahanol i dros 20 oed. Mae mor eang ac mae'n wirioneddol bwysig bod beth bynnag ddaw allan o'r sesiynau hyn yn gweithio ar gyfer y sector yn ei gyfanrwydd a'i fod yn cydnabod a chroesawu'r ffaith bod hwn yn sector sy'n gwneud lot i lawer o bobl mewn llawer o wahanol sefyllfaoedd ac o lu o wahanol oedrannau.'*

Cafwyd awgrymiadau hefyd ynghylch **cynyddu cyllid a chefnogaeth ar gyfer RhCIC.** Gallai **rhwydwaith RhCIC cryfach,** gyda **phartneriaethau cryfach gyda sefydliadau celfyddydol a chymunedol** ledled Cymru weithio gyda phobl ifanc, sefydliadau a CCC i ddatblygu rhwydwaith o'r fath.

Yn ystod y sesiynau, codwyd mwy o gwestiynau na chyflwyno atebion ar sut y byddai neu y gallai'r rhwydwaith hwn edrych. Cafwyd cydnabyddiaeth gan bawb - yn bobl ifanc, sefydliadau a'r hwyluswyr - bod creu rhwydwaith o'r fath yn gryn fenter, ond y dylai gael ei greu **gan bobl ifanc** yn hytrach nag **ar gyfer pobl ifanc**, gyda'r cyfle ar gyfer **ymgysylltu ar-lein ac wyneb-yn-wyneb**. Nodwyd hefyd y dylai'r rhwydwaith fod yn **hygyrch** ac yn **gynhwysol** ar gyfer pobl ifanc o bob cymuned ledled Cymru, gyda gwahanol bwyntiau mynediad ar gyfer pobl ifanc ar wahanol adegau o'u siwrnai yn y celfyddydau. Byddai'r rhwydwaith yn cynnig cyfleoedd yn cynnwys:

- **cysylltu gyda'i gilydd** a gyda **sefydliadau**
- cefnogaeth oddi wrth **fentoriaid** a **chyngor ar lwybrau gyrfa a chyfleoedd hyfforddiant** yn y diwydiant
- **cyfleoedd â thâl** fel **egin-artistiaid ifanc**
- cymorth gyda **chyllid**
- **mwy o lwyfannau** ar gyfer artistiaid ifanc Cymreig

Bydd rhaid hefyd i'r rhwydwaith fod ar gael yn **ddwyieithog** a sicrhau y gall pobl ifanc sydd am geisio cyfleoedd, cefnogaeth neu gysylltiadau trwy gyfrwng y Gymraeg wneud hynny trwy gynrychiolaeth gyfartal yn y Gymraeg. Dywedodd un person ifanc yn ystod y sesiwn cyntaf:

*'Wrth weithio ar-lein dros Zoom a bod yn siaradwr Cymraeg, weithiau mae'n ddiflas cael eich gosod mewn ystafell gyda siaradwyr Cymraeg a siarad gyda phobl ry'ch chi'n eu hadnabod yn barod am bethau rydych chi'n eu gwybod eisoes, a dydych chi ddim yn cael cyfle i siarad gyda phobl y tu allan i'ch cylch cymdeithasol eich hun, ac mae hynny'n broblem. Allwch chi ddim siarad gyda phobl sydd â phrofiadau amrywiol.'*

Pwysleisiwyd pwysigrwydd galluogi pobl ifanc o wahanol gymunedau ledled Cymru i **gysylltu gyda** a **dysgu oddi wrth ei gilydd**.

Codwyd cwestiynau hefyd am sut i gael pobl ifanc i ymgysylltu â'r rhwydwaith, a sut i sicrhau y gall fod yn hygyrch i bobl ifanc sydd efallai ddim yn ymgysylltu eisoes. Rhai o'r meysydd trafod allweddol a gododd o'r rhain oedd:

- Sut allwn ni ddefnyddio rhwydweithiau cyfryngau cymdeithasol sy'n bodoli eisoes i ymgysylltu â phobl ifanc
- Sut i ddefnyddio platfform cyfunol o wybodaeth a chyfleoedd, gyda'r capasiti i bobl ifanc gyfathrebu gyda'i gilydd mewn awyrgylch mwy anffurfiol neu gydweithredol (yn debyg i fforwm ar-lein)
- Sut y bydd sefydliadau celfyddydau a chymunedol yn allweddol wrth gyfeirio pobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw at y rhwydwaith
- Sut i weithio gydag ysgolion, colegau a phrifysgolion i gyfeirio eu myfyrwyr at y rhwydwaith, a sut gallai Cyngor Celfyddydau Cymru gael mwy o bresenoldeb yn y lleoliadau hyn fel bod pobl ifanc yn fwy ymwybodol o'u rôl a'u bod yn cael eu calonogi bod y celfyddydau yn ddewis gyrfa dichonol - rhywbeth yr oedd pobl yn teimlo sydd ddim yn cael ei hyrwyddo mewn ysgolion bob amser.

## Llais a Chynrychiolaeth Ieuenctid

Un o ddeilliannau allweddol y sesiynau oedd: 'Archwilio dichonoldeb a'r angen am fforwm ieuenctid yng Nghymru i ddylanwadu ar ac i hysbysu polisi (Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru)'.

Trafodwyd nifer o syniadau yn y sesiynau fyddai'n rhoi llwyfan i bobl ifanc dderbyn gwir wrandawiad gan CCC, heb roi'r pwysau ar bobl ifanc i *'gywiro pob problem'*. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Fersiwn o'r rhwydwaith a ddisgrifiwyd uchod sydd â ffocws mwy allanol. Er enghraifft, cydweithfa ieuenctid sy'n cwrdd i drafod materion sy'n effeithio arnynt yn uniongyrchol, sy'n derbyn gwrandawiad gan Gyngor y Celfyddydau, all ddarparu adborth iddynt ac sydd â'r gallu i ofyn am gysylltiad gydag aelodau o'r Cyngor (yn debyg i Gyngor Ieuenctid Caerdydd)
- Platfform sy'n defnyddio'r fframweithiau sydd yn eu lle eisoes ar draws gwahanol sefydliadau celfyddydol (h.y., grwpiau llywio neu fyrddau ieuenctid sy'n bodoli eisoes) all fwydo i mewn i rwydwaith ieuenctid Cymru-gyfan mewn modd mwy strwythuredig

Gellid dysgu llawer oddi wrth strwythurau sy'n bodoli eisoes, megis Cyngor Ieuenctid Caerdydd, Senedd Ieuenctid Cymru neu Senedd Ieuenctid San Steffan:

*'Felly, yn y bôn, mae'n wahanol sefydliadau celfyddydau, a'r gobaith yw bod ganddynt wahanol gysylltiadau gyda phobl ifanc, rhyw fath o grŵp ieuenctid sy'n anffurfiol, ond bod ganddynt gyfle hefyd i benodi rhywun, person ifanc - i gynrychioli'r sefydliad - ond hefyd y bobl ifanc y maen nhw'n ffrindiau gyda nhw, neu'n rhyngweithio gyda nhw - i eistedd ar fwrdd sy'n anelu i greu newid o fewn Cyngor*

*Celfyddydau Cymru. A’r gobaith ydi eu bod wedi eu gwreiddio yno fel swyddogaeth wedi ei diogelu o fewn Cyngor Celfyddydau Cymru fyddai’n gweithredu fel seinfwrdd yn y broses llunio penderfyniadau ac eiriol dros leisiau pobl ifanc.’*

Mynegwyd pwyntiau hefyd am bwysigrwydd sicrhau bod gan y gydweithfa neu’r grŵp hwn wir effaith i ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir sy’n effeithio ar bobl ifanc a’u hymgysylltiad â Chelfyddydau Ieuenctid. Mae hyn yn ddibynnol ar weld CCC yn gosod Celfyddydau Ieuenctid yn uwch ar yr agenda ac yn creu lle a chyfle i wrando ar y grŵp.

Un awgrym arall sy’n bwydo i mewn i’r syniad hwn yw i **benodi dau berson ifanc i’r Cyngor** ei hun – gan bontio’r bwlch ‘ni’ a ‘nhw’.

Mae’n bwysig nodi ein bod yn cydnabod na ddylid penodi’r bobl ifanc hyn yn unswydd er mwyn ‘cywiro’r broblem Celfyddydau Ieuenctid’. Dylai dyfodol Celfyddydau Ieuenctid fod yn gyfrifoldeb gaiff ei rannu ar draws pob lefel. Yn yr un modd, byddai’n bwysig sicrhau nad yw’r bobl ifanc hyn yn teimlo’n llwyr gyfrifol am gynrychioli pob person ifanc.

Un awgrym pellach fyddai i sicrhau bod aelodau ifanc y Cyngor yn datblygu perthynas gref gyda’r ddau rwydwaith a ddisgrifir uchod, gan gynnal sesiynau i sicrhau bod lleisiau amrywiol yn cael eu cynrychioli.

Ail awgrym fyddai i ddatblygu **a lansio rhaglen sgiliau a hyfforddiant** sy’n anelu’n weithredol i fuddsoddi mewn pobl ifanc o ystod amrywiol o gefndiroedd ledled Cymru, gan roi iddynt y sgiliau a’r hyder i dyfu’n arweinyddion creadigol nesaf Cymru a darparu llwybr i swyddogaethau ar y Cyngor.

---

Nid yw’n rhan o gylch gorchwyl yr adroddiad hwn i amlinellu elfennau penodol sut y gallai rhwydwaith o’r fath weithredu. Ei ddiben yw tynnu sylw at yr anghenion a’r newidiadau sylfaenol a ddynodwyd gan sefydliadau, gweithwyr llawrydd a phobl ifanc, yn ogystal â’r cwestiynau y maent am sicrhau gaiff eu hystyried wrth i’r sgwrs ddatblygu.

Mae’r canlynol yn crynhoi rhai o feddyliau terfynol ein hwyluswyr ifanc a’n hymarferwyr ar y rhwydwaith (gweler y *Jamboard* llawn trwy glicio yma):


What is YANC? What if people doesn't understand what that network is or what it involves. Increasing awareness. Maybe young people don't understand the context.
Internal and external function - for young people to collaborate and connect, and for there to be a communication outlet to ACW/orgs
Speed-networking!
Deaf people might not use much text - people might prefer to meet people or visuals. We need to think about how we meet people's needs.
Layers to the network - depending on what you need depending on the level you're on
Is it like NTW Community? More of a forum where opportunities are posted by YP can post too.
Making sure that we're getting the word out via schools but also youth services - some sort of resource that then links into a speed networking type event
What if you have 100 turn up for a network event - what happens if you have a new young person, and we don't know who they are? How do we make them feel welcome?
Linked to YANC
Then an artist can be there to do a Q&A. With YANC, would people understand that? What does it stand for? What is it?
Centre point platform? Young people don't always know where to go. About information but also sharing opportunities
Partnering with orgs and putting a face to them. How do people know who to contact for mentoring?
Networks 'created by' young people as opposed to being created for young people
Not everything should be put on YANC in its current format as a project based network
Outlining the pathways available for all artists. Mentoring - how do you get onto that next stage?
We don't want the network to be too wide - how do we know if people who don't like to use social media. What if the network doesn't work well but we create a presentation for young people through schools
How we retain people's interests in these conversations. Aware that YANC is theatre-heavy. How do we engage those engaged in different art forms but not connected to a particular org
Who wasn't there at the sessions? We need to collaborate with as many different platforms as we can on this in order to platform. The external arm of this should be approached
ACW should be present at schools and Unis - in the same way you have police presence! If you want a career in the Arts, highlight the pathways
Missing leading national companies? They need to be a part of this and have a responsibility to shift and integrate
People don't just arrive on a website, you need to build up to that. Start on 'Discord' and then see what works. Trust in young people that they will build their own networks
Different people want different things from arts - different successes and outcomes
We need to be careful with acronyms - Youth Arts Network Cymru is much clearer that YANC!
Deciding whether you're using an established platform or whether we are going to create a new one. We'll need this development stage where we figure out what works.
How can we figure out what works best and implement different elements

# Cyllid Celfyddydau Ieuenctid: Crynodeb o'r Argymhelliad Allweddol

Cyllido oedd y prif faes trafod arall ar draws y sesiynau. Y neges gyffredinol o'r tri sesiwn oedd sicrhau bod mwy o adnoddau, cefnogaeth a chyllid yn cael eu dyrannu i'r sector Celfyddydau Ieuenctid.

Gellir rhannu hyn ymhellach i'r meysydd canlynol:

- **Clustnodi cyllid yn benodol ar gyfer y sector Celfyddydau Ieuenctid**

Mae hyn eto'n deillio o farn gyffredin gref bod angen i Gelfyddydau Ieuenctid gael eu hystyried yn fwy o flaenoriaeth, i Gyngor Celfyddydau Cymru gydnabod ei fod yn rhan bwysig o'r ecoleg gelfyddydol a sicrhau bod cyllido'n cael ei warchod. Fel rhan o hyn, pwysleisiwyd nifer o weithiau bod sefydliadau, gweithwyr llawrydd a phobl ifanc eisiau mwy o hyblygrwydd ac ymddiriedaeth, er mwyn rhoi'r cyfle iddynt ddatblygu prosiectau sy'n gweithio ar gyfer y bobl ifanc yn eu cymunedau, yn hytrach nag addasu prosiectau i weddu i gronfeydd cyllido sy'n bodoli eisoes. Nododd nifer o bobl ei bod hi weithiau'n teimlo fel bod pethau o chwith pan ddaw'n fater o benderfynu beth gaiff ei ariannu, a'u bod eisiau'r amser a'r ymddiriedaeth i ymgysylltu'n ystyrlon gyda'u grwpiau a phenderfynu pa waith y maent am ei gynhyrchu. Roedd awydd cytûn hefyd i gynnwys pobl ifanc yn amlach yn y broses o sicrhau cyllid ar gyfer prosiectau y byddan nhw'n rhan ohonynt. Er enghraifft, nododd un cyfranogwr yn Sesiwn 2 sylwadau am fodel cyllido yr oeddent wedi dod ar ei draws yn ddiweddar, oedd wedi ei seilio ar gyd-ddylunio gyda phobl ifanc:

*'Ar hyn o bryd mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn hyrwyddo modelau diddorol iawn gyda'r rhaglen 'Meddwl Ymlaen' a gyd-ddyluniwyd gyda phobl ifanc. Fe grëwyd tîm 'pobl ifanc yn arwain' i ddylunio'r rhaglen gyfan. A'r hyn maen nhw'n ofyn amdano ydi, eich bod yng ngham cyntaf eich cais, yn rhoi partneriaeth at ei gilydd all ymgysylltu gyda phobl ifanc a sicrhau mai'r bobl ifanc sy'n arwain, ond sydd hefyd â'r capasiti i drosglwyddo'r prosiect. Ond dydyn nhw DDIM am wybod beth yn union fydd y prosiect hwnnw. Rydych chi'n cael y flwyddyn gyntaf i'w gyd-ddylunio gyda grwpiau o bobl ifanc.'*

Cafwyd trafodaethau hefyd ynghylch sut y dylai'r cyllido hwn roi lleisiau'r bobl ifanc wrth galon y prosesau cyllido a llunio penderfyniadau. Roedd gan ein hwyluswyr ifanc nifer o sylwadau am hyn, yn cynnwys syniad am adran benodol er mwyn i bobl ifanc gyfrannu at geisiadau, *'Dylai bod adran yn y ceisiadau ariannu gaiff ei hysgrifennu gan bobl ifanc – 'does dim rhaid iddi fod yn hir nac yn ysgrifenedig - dylai pobl ifanc gael cyfle i gyfrannu'.*

Cyflwynodd hwylusydd ifanc arall y syniad canlynol:

*‘Fe ddychmygais i gael cronfa o hyd at £100,000 sydd ar gael i sefydliadau celfyddydol ond bod rhaid iddi weithio’n benodol ar gyfer pobl ifanc, a chael ei harwain gan bobl ifanc neu’n cyflogi pobl ifanc. A byddai’r bobl ifanc bob blwyddyn - efallai bod y cyllid yn rhedeg am ddwy flynedd - y bobl ifanc fyddai’n penderfynu beth fydd yr ariannu yna’n ei lywio a’i gyfarwyddo. Felly os ydyn nhw am ganolbwyntio’n benodol ar brosiectau celfyddydol sydd â ffocws ar gynaliadwyedd amgylcheddol, yna fe allan nhw benderfynu hynny. A bydd rhaid i bawb sy’n ymgeisio i’r gronfa honno feddwl am brosiect sy’n delio gyda’r mater penodol hwnnw, ond y bobl ifanc fydd yn penderfynu a’r gyfeiriad hynny.’*

- **Diwygio’r prosesau ymgeisio presennol gyda ffocws penodol ar eu gwneud yn fwy hygyrch**

Y farn gyffredinol yw bod y model cyfredol yn creu rhwystrau sylweddol i lawer o bobl ifanc, yn ogystal â’r pwyntiau a godwyd uchod am fod yn rhwystrol i sefydliadau sy’n anelu i gynnal prosiectau’n fwy hyblyg ac ymatebol i anghenion eu pobl ifanc. Dywedodd un cyfranogwr:

*‘Sut allwn ni wneud cyllido’n hwyl ac yn hygyrch? Ffatri gyllido? A oes adran ble mae’r bobl ifanc yn cynnal gwaith ymchwilio a datblygu, ac yna ystafell arbrofi ac ystafell ddysgu, ystafell cydweithredu - sut allwn ni ei wneud yn fwy hwyliog a hygyrch, yn hytrach na ‘ry’n ni’n dod nawr at fater difrifol cyllido’. Mae hynny wedi bod yn rhwystr i mi ar brydiau ac i’r bobl ifanc hefyd rwy’n credu oherwydd eu bod yn teimlo’n rhy bell oddi wrth y broses.’*

Cafwyd nifer o alwadau i ddileu ‘jargon’ sydd mewn ceisiadau cyllido, ac i ail-edrych ar y geiriad a ddefnyddir a’r gofynion sydd yn eu lle er mwyn cyflwyno syniadau, ‘*ydi deall a siarad y jargon yna’n fy ngwneud yn fwy creadigol? Pam na allwn ni fod yn greadigol yn ein ceisiadau pan fyddwn ni’n ymgeisio am brosiect creadigol?*’. Nododd un arall o’n hwyluswyr ifanc: ‘*Pam fod rhaid i geisiadau cyllido fod yn ddogfen ysgrifenedig? All hyn gael ei adlewyrchu gan y gelfyddyd benodol?’.*

Cafwyd cydnabyddiaeth na fyddai newid fel hyn yn digwydd dros nos a thra bo prosesau cyllido’n aros fel y maent, yna mae angen i gymorth ar gyfer pobl sy’n cyflwyno ceisiadau fod yn llawer mwy gweladwy gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Er enghraifft, cafwyd galwadau i sicrhau bod mentora cyllido’n ofyniad ar gyfer cynnig yr ariannu yn y lle cyntaf. Roedd artistiaid ifanc yn bresennol yn y sesiynau wnaeth nodi gymaint yr oeddent wedi elwa oddi wrth gyngor ac arweiniad gan y sefydliadau yr oeddynt yn ymwneud â nhw wrth geisio ymgeisio am gyllid, ond roedd galwadau croyw hefyd am gefnogaeth ehangach oddi wrth CCC. Yn bwysig iawn, mae angen i’r gefnogaeth ehangach yma fod yn agored i’r bobl hynny sydd, efallai, heb rwydweithiau sy’n bodoli eisoes, er enghraifft cyflwynodd un hwylusydd ifanc y syniad o ddiwrnod o hyfforddiant ac arweiniad ar sut i ymgeisio am gyllid, wedi ei lywyddu gan CCC. Yn yr un modd, cafwyd galwadau am i’r rhwydwaith pobl ifanc Cymru-gyfan a ddisgrifiwyd yn yr adran flaenorol fod y platfform hwnnw y gallai pobl ifanc fynd ato i dderbyn cymorth gyda chyllido a chysylltiadau at fentoriaid all gynnig

y cymorth hwnnw iddyn nhw. Dywedodd un hwylusydd ifanc bod pobl ifanc, yn aml, ddim yn gwybod digon am gyllido yn y celfyddydau, ac y gall fod yn gymhleth i gael mynediad iddo, y gellid ei ddatrys yn rhannol gan yr awgrymiadau uchod.

Siaradodd hwylusydd ifanc arall am bwysigrwydd darparu adborth manwl i'r rheini sy'n aflwyddiannus yn eu ceisiadau am gyllid, gan sicrhau bod pobl a sefydliadau'n gwybod beth allan nhw ei wneud i fod yn llwyddiannus yn y dyfodol - rhywbeth y teimlai sy'n ddiffygiol yn y system bresennol.

Roedd mynediad yn bwnc trafod cyffredin trwy gydol y sesiynau a'r cyfarfodydd adrodd yn ôl hefyd. Nododd yr un hwylusydd ifanc bod ffurflenni ysgrifenedig yn gallu bod yn heriol i bobl gydag anghenion ychwanegol; megis artistiaid ac ymarferwyr B/byddar. Dywedodd efallai y byddai cais ar fideo yn haws i rai ei gynhyrchu. Er ein bod yn cydnabod bod CCC yn cynnig gwybodaeth ar ymgeisio am gyllid mewn fersiynau print bras, Braille, sain, Hawdd ei Ddeall ac Iaith Arwyddion Prydain, mae'r ffaith bod artistiaid B/byddar sydd ddim yn ymwybodol o hyn, neu pa brosesau amgen allai fod ar gael ar gyfer cyflwyno cais, yn awgrymu efallai y gellid gwneud mwy i gynyddu amlygrwydd cymorth i gael mynediad ac arweiniad ar wneud ceisiadau.

Cafwyd nifer o sylwadau hefyd ar sut y dylid adolygu cyllid i gael mynediad.

*'Felly os oes gennych chi ymarferydd Byddar, gallwch ymgeisio am gostau mynediad er mwyn eu defnyddio ar gyfer cyfieithwyr BSL, a hynny ar ben y swm yr ydych chi'n ymgeisio amdano ar gyfer y prosiect. Ond mae rhaid i gostau mynediad ar gyfer y gynulleidfa neu'r cyfranogwyr gael eu cynnwys yng nghostau'r prosiect penodol hwnnw.'*

Wrth redeg prosiectau gyda phobl ifanc, anaml iawn y gwyddom beth fydd anghenion mynediad darpar-gyfranogwyr wrth ymgeisio am gyllid. Cafwyd galwadau am gronfa 'atodol' ar wahân y gellir ei defnyddio i ddarparu'r cymorth hwn y tu hwnt i gyllido prosiectau. Awgrymodd un o'r cyfranogwyr y dylid darparu'r gefnogaeth hon y tu hwnt i CCC, '*Mae hwn yn hawl dynol sylfaenol ry'n ni'n siarad amdano, felly dylai fod yn gronfa gan y Llywodraeth, nid yn gronfa gan Gyngor y Celfyddydau.'*

Yn ystod y cyfarfod adrodd yn ôl yn dilyn y tri sesiwn, mynegwyd y pwynt bod elfennau yma sy'n gyfochrog â thrafodaethau ac argymhellion awgrymedig ynghylch hygyrchedd a diffyg cefnogaeth y modelau cyllido cyfredol ar gyfer Celfyddydau Ieuenctid, a chanfyddiadau Adroddiad 'Welsh Arts Anti-Racist Union' a'u galwadau am gyllido. Ceir mwy o fanylion am hyn ar y dudalen nesaf.

- **Sicrhau bod cyllid ar gael yn uniongyrchol i bobl ifanc, gyda chymorth ar gyfer y broses ymgeisio**

Cafwyd llu o alwadau i wneud cyllid yn fwy hygyrch i bobl ifanc ac egin-artistiaid i ymgeisio amdano'n annibynnol, gyda chymorth mentor, CCC neu sefydliadau y

maent yn ymgysylltu â hwy eisoes. Mae artistiaid ifanc wedi teimlo effaith y pandemig yn enbyd ar gynnydd eu gyrfa a chyfleoedd iddynt greu eu gwaith eu hunain ac maent am dderbyn y gefnogaeth a'r adnoddau i'w helpu i wneud hyn. Fel y nododd un cyfranogwr:

*'Mentro rhoi siawns i bobl ifanc er mwyn eu galluogi nhw i fentro gyda'u hymarfer eu hunain - mae methiant yn wers. Sut mae disgwyl inni gael ein rhoi ar ben y ffordd os nad oes ffordd? Cynnwys costau mentora mewn cyllid fel gofyniad pendant, hynny yw elfen ychwanegol, a chynnig awgrymiadau i bobl ifanc a stopio gweithio'n ein herbyn.'*

Yn allweddol, mae rhaid i'r cyllido yma fod yn hawdd cael mynediad iddo, boed hynny trwy gais cyllido wedi ei symleiddio, neu gymorth gan fentor neu Gyngor y Celfyddydau, a bydd rhaid iddo hefyd gynnwys cefnogaeth ar gyfer pethau fel teithio a mynediad i ofodau rhad ac am ddim. Nododd un o'n hwyluswyr ifanc:

*'Mae'r elfen ymddiriedaeth yn aruthrol bwysig, fe dderbyniais i £750 i greu cylchgrawn, ac felly mae rhoi'r cyfle i berson ifanc ymgeisio am swm rhwng £500 - £750 i'w fuddsoddi yn eu hunain, fel y mynnant, ac yna cyfannu hynny gyda phethau fel cysylltiadau trafnidiaeth - llwybrau penodol, neu ofodau ffisegol y gallwch gael mynediad iddyn nhw am ddim.'*

---

Mae'r canlynol yn crynhoi rhai o feddyliau terfynol ein hwyluswyr ifanc a'n hymarferwyr ar gyllido (gweler y *Jamboard* llawn trwy glicio yma):



## Camau Nesaf: Crynodeb o'r Argymhelliad Allweddol

Fel y soniwyd eisoes, dyluniwyd y tri sesiwn i fod yn gychwyn i sgyrsiau ar sut i greu sector Celfyddydau Ieuenctid sy'n gryf, cynaliadwy, creadigol a gyda ffocws ar y bobl ifanc - sy'n cynnal cynwysoldeb, hygyrchedd, amrywiaeth a gwrth-hiliaeth trwy ei holl weithrediadau a diogelu llesiant ein pobl ifanc, ein sefydliadau a'n hymarferwyr.

Trwy ffocysu ar ddau faes allweddol cyllido a rhwydwaith ieuenctid, rydym wedi gallu dynodi rhai o'r syniadau cyffredin fyddai'n cefnogi'r elfen uchod, yn ogystal â nodau a deilliannau gwreiddiol y sesiynau. Mae'r syniadau cyffredin hyn wedi eu cyflwyno a'u hegluro yn y tudalennau blaenorol, a cheir esiamplau pellach o syniadau ac argymhellion unigol gwahanol bobl yn yr amlinelliadau sesiynau yn yr Atodiadau.

Nid oedd cylch gwaith y tri sesiwn archwiliol hyn yn cynnwys dynodi neu ffurfio amserlenni manwl ar gyfer datblygu a gweithredu'r syniadau hyn. Cafwyd cydnabyddiaeth eang y bydd hyn yn ymgymeriad sylweddol ond, er hynny, ei bod hi'n bwysig cynnal momentwm y trafodaethau hyn, sy'n cychwyn trwy ddynodi prif flaenoriaethau a'u rhoi ar waith. Fel dywedodd un o'r cyfranogwyr, *'Dwi'n credu bod sgwrsio'n wych, ond ry'n ni'n genedl o siaradwyr ac weithiau gallwn ymgolli'n llwyr mewn siarad am bethau, ac mae gweithredu'n wych hefyd. Ac yna dal pobl yn atebol pan na fydd gweithredu'n digwydd.'*

Bydd yr adroddiad hwn yn cynnig cyfres o gamau nesaf y credwn fydd yn helpu CCC i restru'r blaenoriaethau hyn a sefydlu atebolrwydd er mwyn i'r sgyrsiau hyn gael eu troi'n weithredu. Ar draws yr holl argymhellion hyn, gofynnwn i CCC sicrhau bod ystod amrywiol o leisiau'n parhau i gael eu cynnwys yn y sgyrsiau a'r camau gweithredu dilynol.

### Argymhelliad Tymor Byr (o fewn tri mis)

- **Cyhoeddi'r adroddiad yn Gymraeg a Saesneg, cydnabod ei dderbyn a chyflwyno ymateb**

Yn ogystal â sicrhau bod yr adroddiad yn ymddangos ar wefan CCC, rydym yn argymell canfod ffyrdd i bobl ifanc ei ddarllen trwy'r cyfryngau cymdeithasol, er enghraifft ar straeon Instagram, fydd yn gwneud y pwnc yn fwy hygyrch iddyn nhw. Hoffem weld rhoi gwahoddiad i bobl ifanc sy'n ymwneud â'r celfyddydau i ymateb i ganfyddiadau allweddol yr adroddiad trwy fideos byr neu eu dal trwy bôl piniwn straeon Instagram, y gellir eu defnyddio i lansio'r adroddiad yn gyhoeddus ar y cyfryngau cymdeithasol. Bydd hyn yn cynnwys clustnodi cyllido er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu talu, yn ogystal â thalu am gostau sy'n gysylltiedig â ffilmio, is-deitlo a golygu. Un awgrym gan un o'n hwyluswyr ifanc oedd i gynnwys hefyd gostau i dalu am hysbysebion ar Instagram, fydd yn sicrhau y gallwch gyrraedd ystod eang o bobl ifanc.

**Costau amcangyfrifedig: Ffi o £150 i bob person ifanc, £500 - £750 ar gyfer ffilmio a golygu, £150 y mis ar gyfer hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol a £750 ar gyfer mynediad (BSL a chyfieithu)**

**Argymhellion Tymor Canol (o fewn chwe mis)**

- **Trefnu ymgynghori pellach yn Gymraeg a Saesneg gyda phobl ifanc (gan sicrhau y telir am eu hamser) ar:**
    - Fireinio syniadau a gweithredu ar rwydwaith celfyddydau ieuenctid ar gyfer a gan bobl ifanc
    - Mireinio syniadau a gweithredu ar grŵp neu gydweithfa i fwydo i mewn i broses llunio penderfyniadau Cyngor Celfyddydau Cymru
- **Trefnu ymgynghori pellach yn Gymraeg a Saesneg gyda RhCIC, CCIC a sefydliadau celfyddydol a chymunedol allweddol eraill ar ba gefnogaeth y gallai RhCIC a CCIC fod ei angen i gynnal fframwaith rhwydwaith celfyddydau ieuenctid ar gyfer pobl ifanc**
- **Cyhoeddi cynlluniau yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer trosolwg o geisiadau cyllido; yn cynnwys gweithredu panel ieuenctid, cyllido dynodedig ar gyfer Celfyddydau Ieuenctid a hygyrchedd ehangach mewn modelau ymgeisio**

**Argymhellion Tymor Hir (12 – 24 mis)**

- **Bod wedi sicrhau swm o gyllid wedi'i glustnodi sy'n agored yn benodol ar gyfer Celfyddydau Ieuenctid, yn cynnwys:**
    - Cyfleoedd i bobl ifanc ymgeisio am gyllid yn uniongyrchol, gyda'r cymorth cywir
    - Cyfleoedd i sefydliadau ac ymarferwyr ymgeisio am gyllid ar gyfer prosiectau sy'n hyblyg i anghenion eu pobl ifanc, ac wedi eu cyd-greu gyda nhw
    - Proses ymgeisio hygyrch, sy'n lleihau iaith ddyrys ac sy'n rhoi cyfle i artistiaid a sefydliadau i fynegi creadigedd y prosiectau y maent yn ceisio eu hariannu
- **Bod wedi gweithio gyda'r sector i sefydlu rhwydwaith dwyieithog ar gyfer pobl ifanc i gysylltu a chael mynediad rhwydd i wybodaeth, cyfleoedd, mentoriaid a chyllid**
- **Bod wedi sefydlu dulliau cyfathrebu clir rhwng y rhwydwaith uchod a Chyngor Celfyddydau Cymru, gan sefydlu fframwaith yn seiliedig ar yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd fel rhan o'r argymhellion tymor canol**
- **Gosod dau berson ifanc ar y Cyngor**
    - Gan ddarparu iddynt y gefnogaeth angenrheidiol i'w lleisiau gael eu clywed ac i dderbyn gwir wrandwiad
    - Darparu iddynt y platfform a'r dulliau cyfathrebu i fwydo i mewn i'r rhwydwaith pobl ifanc; gan sicrhau eu bod yn cynrychioli ystod eang o leisiau pobl ifanc ledled Cymru

- Sefydlu a chefnogi'n ariannol raglen hyfforddi fydd yn buddsoddi mewn pobl ifanc fel arweinyddion creadigol y dyfodol all gamu i mewn i rolau'r Cyngor yn y dyfodol

**Pwyntiau ychwanegol:**

Y farn gyffredin oedd bod y sector Celfyddydau Ieuenctid angen cefnogaeth well a mwy cydnerth gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae sefydliadau ac ymarferwyr yn awyddus i gryfhau'r partneriaethau a'r perthnasau gyda'i gilydd er mwyn rhannu arferion gorau yn ogystal â chefnogi eu pobl ifanc. Cyfeiriwyd nifer o weithiau at **Company Three** fel sefydliad sy'n arddangos arfer gorau ym maes theatr ieuenctid, yn ogystal â chynlluniau yn Yr Alban megis dileu codi tâl am wersi cerddoriaeth a deunyddiau mewn ysgolion yn ogystal â'u cynllun 'Time to Shine' (https://www.creativescotland.com/resources/our-publications/plans-and-strategy-documents/national-youth-arts-strategy/evaluation-of-the-implementation-of-time-to-shine).

Datgelodd y sesiynau awydd gan y sector i atgyfnerthu a gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu rhyw fath o Faniffesto Celfyddydau Ieuenctid, wedi ei gyd-gysylltu efallai gyda'r Contract Diwylliannol. Un awgrym a gafwyd gan un o'n hymarferwyr trosglwyddo oedd comisiynu darn o waith wedi'i arwain gan ymchwil am ddyfodol y Celfyddydau Ieuenctid yng Nghymru, allai gyfrannu at strategaeth gref ar gyfer y sector.

Cyfeiriwyd nifer o weithiau hefyd at **Rawffest** fel platfform llwyddiannus er mwyn i bobl ifanc allu cysylltu gyda phobl ifanc eraill sy'n rhan o wahanol fathau o gelfyddydau, a thrwy hynny ehangu eu dealltwriaeth o'r sector yn gyffredinol a'r cyfleoedd allai fod yn agored iddynt.

Roedd cynnwys pobl ifanc sydd ddim yn ymwneud â'r celfyddydau ar hyn o bryd yn bwnc trafod cyffredin trwy gydol y sesiynau hefyd. Ceir cydnabyddiaeth y gallai sefydliadau a CCC fod yn gwneud llawer mwy i weithio gyda sefydliadau cymunedol, yn ogystal ag ysgolion a cholegau, i gyrraedd pobl ifanc sydd ddim yn teimlo bod Celfyddydau Ieuenctid yn lle iddyn nhw ar hyn o bryd. Roedd y sgyrsiau'n ymwneud yn aml â:

- Chynyddu mynediad i gyllid
- Cynyddu presenoldeb Cyngor y Celfyddydau mewn ysgolion a chymunedau
- Cynyddu nifer y llwyfannau ar gyfer artistiaid ifanc Cymreig
- Sicrhau bod y rhwydwaith pobl ifanc arfaethedig yn un haenog, a'i fod yn galluogi mynediad ar gyfer pobl ifanc sydd ar gychwyn eu taith yn y celfyddydau

Fodd bynnag, codwyd pwynt pwysig arall ynghylch sefydlu sector sydd hefyd yn gweithio ar gyfer pobl sydd eisoes wedi ymgysylltu â'r celfyddydau. Dywedodd un o'n hwyluswyr ifanc;

*‘Rwy’n credu y dylai’r ffocws, yn hytrach, fod ar wneud pethau’n iawn ar gyfer y rheini sy’n ymgysylltu â’r celfyddydau eisoes, oherwydd trwy wneud hynny, dyna pryd fydd pobl sydd ddim yn ymwneud â’r celfyddydau yn gallu ymgysylltu. Felly byddai gwneud pethau’n iawn, er enghraifft yn golygu gwneud yn siŵr bod cyllid yn hygyrch, bod trafnidiaeth yn hygyrch, bod mentora yn hygyrch, bod ceisiadau’n hawdd i’w cwblhau. Ac yna, o wneud hynny, bydd y bobl ifanc ac unrhyw un arall, allai fod o gefndiroedd Mwyafrif Byd-eang er enghraifft, wedi creu’r gelfyddyd honno ac oherwydd eu bod yn rhan o’u cymunedau eu hunain, byddant wedi ymgysylltu gyda phobl sydd heb ymgysylltu eisoes. Felly, mewn gwirionedd, rwy’n credu y dylai CCC ganolbwyntio llai ar gael ‘pobl sydd heb ymgysylltu’ i ddangos diddordeb yn y celfyddydau, ond yn hytrach wneud yn iawn o ran y bobl sydd wedi ymgysylltu ac fe fyddan nhw, yn anochel, yn cael pobl eraill i ymgysylltu hefyd’*. Felly, er nad oes argymhellion penodol ynghylch ymgysylltu gyda phobl ifanc newydd, y gobaith yw y byddai’r argymhellion a gyflwynwyd yn caniatáu ar gyfer sefydlu sector mwy cynhwysol a hygyrch, fydd yn ofod mwy diogel er mwyn i fwy o bobl ifanc ymgysylltu a llwyddo ynddo. Byddem yn gobeithio hefyd y byddai’r sgyrsiau hyn yn cael eu gwreiddio mewn cyfnodau ymgynghori pellach ac yn rhan o’r gwerthusiad parhaus o lwyddiant y mesurau hyn.

# Atodiadau

## Atodiad: Astudiaethau Achos Hwyluswyr Ifanc

Fe ofynnom i'n hwyluswyr ifanc fyfyrio ar beth mae, neu y byddai rhai o'r argymhellion allweddol hyn yn ei olygu iddyn nhw wrth iddynt symud ymlaen yn eu gyrfaoedd creadigol eu hunain. Dyma oedd ganddynt i'w ddweud:

*Mae'r holl destun isod wedi ei godi'n uniongyrchol o gyflwyniadau ysgrifenedig neu ei drawsgrifio o recordiadau sain neu fideo. Mae ambell baragraff wedi ei gwtogi at ddiben yr adroddiad hwn ac, os felly, cysylltwyd gyda'r hwyluswyr i dderbyn eu caniatâd i gynnwys yr hyn sy'n ymddangos isod, neu darperir dolen i'r recordiad llawn.*




**Jannat Ahmed:**
"Mynediad i gyllid go iawn, mentora, arbenigedd a rhwydweithiau fel person graddedig oedd y rheswm y cafodd fy nghylchgrawn ysgrifennu creadigol i, Lucent Dreaming, gyfle go iawn i lwyddo. Mae pawb yn haeddu cyfle i gyfranogi yn y celfyddydau, boed hynny er hwyl, neu fel gyrfa, ond mae artistiaid ifanc yn gadael Cymru'n un fflyd oherwydd nad oes ganddyn nhw fynediad i'r platfformau neu'r gefnogaeth y maent eu hangen ar bob cam o'u taith."

**Dyddgu Glyn Jones:**
"Mae cwblhau'r trafodaethau diddorol yma wedi fy annog i ganolbwyntio ar fanteision derbyn cynrychiolaeth pobl ifanc fel rhan o Gyngor Celfyddydau Cymru. Fel person ifanc fy hun, sydd ar fi'n ceisio ffurfio llwybr i astudio i ddod yn berson creadigol, mae lleisiau fy nghyd-genhedlaeth yn bwysicach nag erioed. Byddai manteision cynnwys pobl ifanc, a chynwysoldeb ymysg yr aelodau rheiny yng Nghyngor Celfyddydau Cymru yn sicrhau sefydlogrwydd, cefnogaeth a chyngor ar gyfer llawer o bobl ifanc sydd angen cymorth i ffurfio llwybr cadarn i mewn i'r celfyddydau yng Nghymru. Byddai'r gefnogaeth gan gynnwys ariannu, creu cysylltiadau ac adnoddau defnyddiol ar gyfer artistiaid ifanc, yn cyflwyno cyfleoedd gwerthfawr yng Nghymru, heb orfod chwilio mewn man arall am y profiadau rhain. Yn sicr, ymysg y pobl ifanc sy'n adnabod heriau a straen llwyddo i dderbyn gyrfa celfyddydol yng Nghymru modern, y byddai trafodaethau gafaelgar ac addysgiadol yn codi, er mwyn creu sin celfyddyol sy'n hygyrch i bob person ifanc ledled y wlad.



Mae cynyrchiolaeth i bobl ifanc, Cymraeg wedi bod yn brin dros y blynyddoedd- o ganlyniad, mae'r sialens i dderbyn swyddi a phrofiadau a mynedu pob math o feysydd celfyddydol wedi cynyddu. Er hyn, mae ein barn a'n profiadau (yn enwedig dros y deunaw mis diwethaf) yn hanfodol er mwyn moderneiddio a diweddaru'r celfyddydau yn ein gwlad. Boed cyflawni hynny drwy rwydweithio, mentora, hwyluso, cysylltu'n uniongyrchol gyda chynulleidfa ar gyfryngau cymdeithasol, cylchlythyrau neu ebyst, mae cefnogaeth ymysg pobl ifanc i'w gilydd yn fanteisiol, er mwyn creu ymgysylltiadau angerddol i annog cefnogaeth cadarn ymysg pobl ifanc Cymraeg; byddai tim creadigol o bobl ifanc creadigol fel rhan o Gelfyddydau Cenedlaethol Cymru yn cynyddu cyfleoedd, gan ddod a'r diffyg cynrychiolaeth i artistiaid ifanc Cymru ar y sin celfyddydol cenedlaethol a rhyngwladol, i ben. Mae pobl ifanc yn adnabod gofynion a diddordebau ei gilydd, ac o ganlyniad, byddai sefydliad sy'n cydnabod bod angen creu newidiadau, cynyddu amrywiaeth diwylliannol a chynwysoldeb gan gynnwys pobl ifanc yn ei mysg, yn ffurfio llwybr cefnogol i bobl ifanc a fyddai'n arwain at ddyfodol disglair i'r celfyddydau yng Nghymru. Er mwyn symud ymlaen, mae'n cymdeithas celfyddydol angen dibynnu ac ymddiried yng ngwybodaeth a phrofiadau pobl ifanc, er mwyn gosod ein hartistiaid ifanc ar y map."

**Eden-Mae Davies:**
"Rwy'n credu mai'r peth pwysicaf y gellir ei gynnig i bobl ifanc yn y celfyddydau yw: cyfleoedd. Mae agor lan cyfleoedd ac opsiynau ar gyfer pobl ifanc yn creu gwahanol lwybrau. Mae hyn yn bwysig nid dim ond er mwyn gwarchod y dyfodol ar gyfer y celfyddydau ond i sicrhau ei fod yn dal i fodoli. Alla' i ond dychmygu sut fyddai fy mywyd pe bawn i'n teimlo bod opsiynau mwy hygyrch pan oeddwn i'n iau. Bydd creu rhwydweithiau, ceisiadau syml a chyllid sy'n agored a defnyddiol yn arwain at ddyfodol gaiff ei arwain gan bobl ifanc. Fe hoffwn i pe bae hynny'n rhywbeth oedd ar gael pan oeddwn i'n iau, ac yn y dyddiau sydd ohoni, mae'n ymddangos yn bwysicach nag erioed."



**Fahadi Mukulu:**
"Un o'r pethau pwysicaf wnaeth wir sefyll allan i mi oedd pwysigrwydd rhwydwaith cryf o bobl ifanc a rhoi'r gallu iddyn nhw gael eu cefnogi mewn gofod ble gallan nhw siarad am faterion pwysig. Sgwrsio'n hamddenol am bethau - bywyd cymdeithasol, eu rhwydwaith nhw - ond hefyd i ddod at ei gilydd a meddwl o ddifrif am yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw a defnyddio eu hunain fel rhwydwaith er mwyn herio pobl sydd â grym. Fe wnaeth hyn fy atgoffa o fy amser gyda Chyngor Ieuenctid Caerdydd a'r hyn roedd y rhwydwaith hwnnw'n ei olygu i mi. Roedden ni'n arfer ffocysu ar faterion cymdeithasol oedd yn bwysig i bobl ifanc ar y pryd yng Nghaerdydd. Fe fydden ni'n dod at ein gilydd, fe fydden ni'n trafod y materion pwysig

ac yna fe fydden ni'n ffurfioli ac yn strategeiddio ac yn meddwl am ffyrdd y gallem newid pethau i wneud pethau'n well i bobl… Rwy'n teimlo bod cael y rhwydwaith cryf hwnnw o'ch amgylch o bobl sy'n rhannu'r un meddylfryd yn gefnogol iawn wrth greu newid gwirioneddol a sylweddol… roedd gennym strwythurau ar gyfer cael mynediad at lefelau pŵer uwch... Felly i mi, mae'r hyn fyddai rhwydwaith cryf yn y Celfyddydau'n ei olygu yw bod llais pobl ifanc yn cael ei glywed gan y sector… Bod pobl ifanc yn teimlo bod ganddynt blatfform ar gyfer rhannu eu llais a rhannu'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw ac, waeth beth yw'r mater llosg, bod llwybr ar gyfer lleisio'r mater llosg hwnnw" **Gallwch wylio fideo llawn Fahadi yma**: https://drive.google.com/file/d/10D4Z-f0UmiPkqha2zMCKQNBMC34531ip/view

**Hannah Lad:**



"Mae pobl ifanc eisiau rhwydwaith wedi ei arwain gan ieuenctid allai ddarparu cyfleoedd trwy bob lefel, o bobl ifanc sydd megis dechrau yn y celfyddydau i egin-artistiaid allai gymryd rôl fwy strategol yn y rhwydwaith hwnnw. Yn bersonol, rwy'n meddwl y dylai hwnnw gael ei gysylltu â RhCIC, oherwydd mae ganddyn nhw'r seilwaith rhwydwaith hwnnw yn ei le eisoes ac mae'n genedlaethol… ac rwy'n credu y dylai'r rhwydwaith hwnnw gael ei arwain gan ieuenctid… mae angen iddo fod yn amlddisgyblaethol ac mae angen iddo fod yr hyn y mae'r bobl ifanc eisiau… Mae rhywbeth sydd angen meddwl amdano o ran ymgysylltu pobl ifanc gyda Chelfyddydau Ieuenctid, oherwydd fe allwn ni weld y buddiannau, 'does dim angen inni siarad am y buddiannau - maen nhw yno, mewn du a gwyn - ond mae angen inni feddwl am ble y gallai pobl ymuno ble nad ydyn nhw eisoes. Rwy'n credu hefyd bod angen i bobl wneud mwy yn eu sefydliadau celfyddydol eu hunain… Rwy'n cytuno bod angen i bethau newid ar lefel corff cyllido… ond dwi wir yn credu y gellid gwneud llawer o fewn sefydliadau sydd ddim yn cael ei wneud eisoes, ac mae angen i'r newidiadau hynny ddod, yn y bôn, o'r sefydliadau eu hunain. Os bydd Cyngor y Celfyddydau'n agor y cyllido i fyny, bydd angen i sefydliadau roi'r cyllid hwnnw yn y mannau cywir."



**Safyan Iqbal:**

"Cyfle, rhwydwaith, arddangos yn llawn y diddordeb brwd y byddai'n wych ei arddangos, mae'n fy helpu i wybod sut beth ydi hynny, gwybod beth ydw i eisiau wedi rhoi tro arno, er enghraifft mae gŵyl, rhwydweithio ayyb wedi gadael imi fwynhau'r hyn rwy'n hoffi ei wneud. Hoffwn i ddal ati gyda diddordebau rydw i wrth fy modd yn eu gwneud. Oherwydd nad oeddwn i'n gallu ei wneud yn y gorffennol gan nad oeddwn i'n gwybod sut i'w wneud neu'r rhwystr oedd gen i yn fy ngorffennol, ond nawr edrychwch ble rydw i ar ôl mynd

i’r rhwydwaith, y cyfle a’r llwyfan a’r gefnogaeth sydd gen i bob amser.
Ond yn fy marn i am ariannu, mentora, cyfle go iawn, rhwydweithio fel diddordeb yn y math o gelf, fel y cyfryngau, oedd yn denu fy sylw. Roeddwn yn teimlo heb gyllid i gael mynediad iddo y byddai diffyg llwyfan, hoff swydd, diddordeb, cyfyngiadau o ran gwaith – i mi byddai bod yn fodel rôl yn golygu y byddai’n dda ar gyfer pobl Fyddar i’w weld a’i dderbyn. Heb fodel rôl ar gyfer pobl Fyddar byddai’n ddiffyg mawr sy’n golygu na fydden nhw’n gallu gweld na gwneud. Dwi’n falch o fod yn Fyddar er gwaethaf popeth, byddai’n dda cael mynediad i gefnogaeth a chronfa a phlatfform i helpu i wneud iddo ddigwydd.”

# Atodiad: Nodiadau Sesiwn Un


**Dydd Iau 8fed Gorffennaf, 5 - 7.15pm**
*Ar gyfer pobl ifanc 16 – 25 oed*
*Nodau:*

- *I greu gofod ymlaciol, agored i gyfranogwyr rannu eu barn*
- *I glywed gan gyfranogwyr am sut y maent yn ymgysylltu gyda'r Celfyddydau, a sut mae Covid wedi effeithio ar hyn*
- *I glywed gan gyfranogwyr sut y maen nhw'n meddwl y dylai'r Celfyddydau edrych ar ôl y pandemig*
- *I ddarparu gwybodaeth ar enghreifftiau o fentrau llais ieuenctid (bwrdd ieuenctid, grŵp llywio ieuenctid, fforwm ieuenctid) a sut y mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn cefnogi Celfyddydau Ieuenctid ar hyn o bryd*
- *I glywed gan gyfranogwyr sut y maen nhw am i bobl mewn grym, fel CCC, ymgysylltu mwy gyda nhw*

Wedi cyfres o gyflwyniadau, gweithgareddau torri'r ia a gwirio lles pawb, agorodd y sesiwn gyda thrafodaeth am y celfyddydau yng Nghymru a sut y mae pobl ifanc wedi ymgysylltu â'r celfyddydau trwy gydol y pandemig. Mewn ystafelloedd unigol llai o faint, trafododd gwahanol grwpiau'r canlynol:

1. Pa gyfleoedd celfyddydau sydd ar gael ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru? Mewn ysgrifennu creadigol, cerddoriaeth, theatr, dawns, unrhyw beth arall?
2. Pa bethau creadigol ydych chi wedi ymwneud â nhw trwy gydol y pandemig? Beth ydych chi'n teimlo eich bod wedi colli allan arnyn nhw?
3. Sut mae'r celfyddydau wedi effeithio ar eich profiad o'r pandemig? Iechyd meddwl, mynegiant, creu / cynnal perthnasau?
4. Sut mae COVID wedi effeithio ar eich profiad o'r Celfyddydau yn yr ysgol / coleg?
5. Sut mae COVID wedi effeithio ar eich syniad o'ch dyfodol yn y Celfyddydau?

Anogwyd y cyfranogwyr i gyfrannu eu meddyliau ar lafar, trwy flwch sgwrs Zoom, neu trwy ddefnyddio *Jamboard* rhyngweithiol Google (enghraifft isod):




Roedd pwyntiau allweddol eraill a godwyd yn yr ystafelloedd unigol hyn yn cynnwys:

- Pan mae pobl ifanc yn cael profi cyfleoedd mawr (fel gweithio ar lefel genedlaethol), maen nhw wir yn aros gyda nhw
- Mewn cyfleoedd mawr ar gyfer pobl ifanc, mae rhaid inni edrych ar sut yr ydym yn ymgysylltu gyda chymunedau mwy amrywiol
- Mae cyfleoedd yn codi os ydych hi’n rhan o un cwmni - ond ble allwn ni ddod o hyd i’r bobl hynny sydd ddim yn rhan o unrhyw rai o’r cwmnïau craidd hyn
- Mae pobl ifanc yn gwerthfawrogi gweithio amlddisgyblaethol, mae Rawffest yn gweithio mewn modd amlddisgyblaethol fel bod pobl ifanc yn cael gweld gwahanol fathau o ffurfiau celf

- Mae pobl ifanc wedi methu'r cysylltiadau y mae'r celfyddydau'n eu cynnig iddynt, ac yn dynodi eu bod wedi methu allan ar gyfleoedd oherwydd y pandemig o ganlyniad i'r cyfnodau clo
- Yn aml, mae cyfleoedd ichi gael eich troed yn y drws yng Nghymru, ond allwch chi ddim mynd llawer ymhellach - mae angen inni edrych ar y cam coll hwnnw rhwng cael eich troed yn y drws a symud ymlaen i yrfa
- Cafodd y pandemig effaith negyddol ar iechyd meddwl, yn cynnwys hunan-barch ac ysgogiad
- Efallai, pe bae'r gwaith wedi bod wyneb-yn-wyneb y byddai mwy o drafod wedi bod ar lwybrau gyrfa. Weithiau mae pobl ifanc yn cael eu gadael i wneud y penderfyniadau hynny drostynt eu hunain a chodwyd cwestiwn os byddent wedi dilyn y llwybr y maent arno. Efallai y byddai ambell berson wedi mynd trwy'r newid gyrfa hwn oherwydd nad ydyn nhw'n siŵr beth sy'n digwydd gyda dyfodol celfyddydau ieuenctid
- Cafwyd sgwrs arall eto am ysgolion a pha mor bwysig yw ysgolion, oherwydd weithiau 'dyw pobl ddim yn cael clywed am yr hyn sy'n digwydd yn eu cymunedau lleol felly'r syniad oedd efallai y gallai rhywun siarad am grwpiau ieuenctid gydag ysgolion ac yna aros ar ôl ysgol i sgwrsio gyda'r bobl ifanc
- Pobl ifanc yn nodi pa mor anodd oedd graddio'r llynedd, a sut y gwnaeth iddyn nhw newid yr hyn oedden nhw'n credu y byddent yn ei wneud. Efallai y gallai Cyngor y Celfyddydau a sefydliadau eraill ddarparu mwy o gyfleoedd ar gyfer egin-artistiaid a graddedigion, ac nid dim ond cyfleoedd sy'n rhoi sgiliau iddynt, ond sydd hefyd yn eu talu ac sy'n caniatáu iddynt greu eu gwaith creadigol eu hunain
- Mae hefyd yn golygu nid yn unig helpu artistiaid mewn ystyr greadigol ond hefyd ysgrifennu ceisiadau ar gyfer cyllid ac efallai gael mentor all eich cefnogi yn y dyddiau cynnar, neu yn y flwyddyn olaf y byddwch yn graddio - er mwyn eich cefnogi a dysgu'r sgiliau hynny ichi
- Datblygu platfform ble gall artistiaid gael map i'w cyfeirio, felly pan maen nhw allan yn y byd mawr eu bod yn gwybod beth sydd ar gael iddyn nhw a ble gallan nhw fynd
- Gallai Cyngor y Celfyddydau wneud rhagor o waith ar greu llwyfannau ar gyfer artistiaid Cymreig a rhoi platfform iddyn nhw a chefnogi a thynnu sylw at yr artistiaid sydd o gwmpas Cymru a'r hyn y maent yn ei wneud a'u gwaith
- Wrth weithio ar-lein dros Zoom a bod yn siaradwr Cymraeg, weithiau mae'n ddiflas cael eich gosod mewn ystafell gyda siaradwyr Cymraeg a siarad gyda phobl ry'ch chi'n eu hadnabod yn barod am bethau rydych chi'n eu gwybod eisoes, a dydych chi ddim yn cael cyfleoedd i siarad gyda phobl y tu allan i'ch cylch cymdeithasol eich hun, ac mae hynny'n broblem. Allwch chi ddim siarad gyda phobl gyda phrofiadau eang, amrywiol.
- Dynodi sut y gallwch gael eich ynysu mewn cymunedau mwy gwledig - mae'r cyfnod clo wedi gwneud imi sylweddoli fy mod i'n greadur prin fel hwylusydd sy'n byw yng Ngogledd Cymru. 'Does dim llawer o bobl debyg i mi'n lleol, felly mae hynny'n gwneud imi deimlo'n reit unig, yn enwedig yn ystod y

cyfnod clo. Ond mae hefyd yn bositif fy mod i'n gallu cwrdd â phobl fel chi dros Zoom heb orfod dal y trên i Gaerdydd.

- Gall busnesau a chwmnïau a phrosiectau fod yn hyblyg, ond mae angen iddynt hefyd gynnig sefydlogrwydd ar gyfer y bobl hynny sy'n byw yn y Gogledd - y gambl hynny os ydych chi am weithio o bell neu mewn gofod penodol? 'Does dim gwerth jest symud i Gaerdydd os nad ydych chi'n siŵr.
- Mae rhaid inni fod yn ymwybodol o dlodi digidol - pan fydda i'n mynd yn ôl i'r Gogledd mae'r rhyngrwyd yn dda i ddim. Sut allwn ni ddisgwyl i'n pobl ifanc greu gwaith o safon os nad yw'r ddarpariaeth ddigidol ar gael?

Fel grŵp, meddyliodd y cyfranogwyr hefyd am y pwyntiau canlynol:

- Beth ydych chi am iddo newid neu barhau ar ôl y pandemig yn y Celfyddydau yng Nghymru?
- Sut ydych chi am i'ch llais gael ei glywed gan sefydliadau fel Cyngor Celfyddydau Cymru, sydd â'r grym dros ba sefydliadau a phrosiectau gaiff eu cyllido?

Yn ogystal â thrafodaethau grŵp, anogwyd y cyfranogwyr i gymryd rhan mewn ymarfer ysgrifennu pen agored er mwyn helpu i ddatblygu eu meddyliau. Roedd rhai o'r myfyrdodau allweddol yn cynnwys:

**Lack of clear pathways or guidance around pathways**

**Youth groups should liaise with schools more**

**Covid has pushed people to make decisions about their future – sometimes with career changes because of the uncertainty about the industry**

We need more unrestricted/flexible funding - to be trusted to utilise that funding directly to meet access needs transport/ meals/ support

We need to put pressure on WG not just Arts Council to take needs of young people seriously and to put this much higher up the agenda

**Listen**

Much better connections and make sure young people are at the centre

**Covid has made people miss out on social aspects**

**Need to provide more (paid) opportunities for young emerging artists. There is a lack of opportunity to make work as early career artists**

**Create a roadmap or platform for what funding is available**

**Schools are focusing on catching up on maths and English**

**Mentors!**

**Platform Welsh artists**

**'It's not always our responsibility to make change' – how do we balance this with getting young people's voice heard and supporting them in the way they need?**

**Network for young Welsh facilitators that leads to paid work**

# Atodiad: Nodiadau Sesiwn Dau

**Dydd Iau 15fed Gorffennaf, 4 – 6.30pm**

*Ar gyfer sefydliadau a gweithwyr llawrydd*

*Nodau:*

- *I sefydlu gofod agored ac ymlaciol i gyfranogwyr rannu eu barn*
- *I annog sefydliadau a gweithwyr llawrydd i nodi eu sylwadau ar sut cafodd eu gwaith ei effeithio gan Covid, a pha gefnogaeth y maent ei angen gan CCC yn y dyfodol*
- *I ddechrau dynodi'r anghenion a'r gofynion sylfaenol ar gyfer cyllid loteri penodol ar gyfer Celfyddydau Ieuenctid*
- *I annog cyfranogwyr i gofrestru ar gyfer y sesiwn olaf ac i barhau â'r sgwrs*

Bwydodd yr hwyluswyr ifanc a'r tri chyfranogwr o Sesiwn Un bwyntiau allwedd yn ôl o drafodaethau'r wythnos flaenorol. Talwyd ffi i bob un am fynychu ac i adrodd yn ôl ac yna fe'u hanogwyd i aros ac arsylwi'r sgyrsiau dilynol.

Mewn ystafelloedd gwahanol llai o faint, anogwyd y sefydliadau a'r gweithwyr llawrydd i drafod y canlynol, cyfrannu eu meddyliau ar lafar, trwy flwch sgwrs Zoom, neu trwy ddefnyddio *Jamboard* rhyngweithiol Google.

- Rhannu hoff brosiect, neu rywbeth sydd wedi gweithio'n dda i chi'n ystod Covid?
- Beth ydych chi ei angen gan Gyngor Celfyddydau Cymru i wneud mwy o'r gwaith yma? Beth ydych chi ei angen i'ch helpu i oresgyn yr heriau a gododd?
- O'r pethau yr ydych wedi eu dynodi, os allech chi glymu'r elfennau hyn i faes penodol, beth fyddai hwnnw? H.y., cyllid, digidol, personél / rhwydweithiau.

Roedd pwyntiau allweddol a godwyd am y pynciau uchod yn cynnwys:

## Ystafell Unigol 1:

- Yn ystod y cyfnod clo, ymgymerodd pobl â llawer o wahanol brosiectau, ysgrifennu dramâu, mentora cerddoriaeth - llwyfannau perfformio ac arddangosfeydd. Yr elfen allweddol ddaeth allan o hynny oedd gwytnwch pobl ifanc a'u dawn i daro'n ôl - ydi, mae wedi bod yn anodd ac yn heriol ond mae'r ysfa greadigol yn dal yno
- Tlodi Digidol – mae angen meddwl am ofod digidol a sut y mae pobl yn cael mynediad i dechnoleg a data.
- Cyllid - mae angen mwy ohono! Mae angen hyblygrwydd gyda chyllido er mwyn gallu symud a chreu cysylltiadau gyda gwahanol bethau
- Myfyrdodau - myfyrio ar yr hyn sydd wedi gweithio'n dda a beth sydd heb a'r modd gorau i wasanaethu pobl ifanc
- Amser - ry'n ni wedi mwynhau cael digonedd o amser i allu cynnal prosiectau dwys ac ystyrlon. Mae peth o'r amser hwnnw'n diflannu bellach, ond ry'n ni ei angen yn ôl

- Cynrychiolaeth - yr angen i bobl ifanc weld modelau rôl amrywiol. Mae angen iddyn nhw weld eu hunain yn y pethau sy'n eu bwydo
- Caiff hyn i gyd ei gefnogi gan rwydweithiau cryfach
- Hyblygrwydd cyllido - weithiau bydd prosiectau'n cael eu gosod ar ysgwyddau pobl ifanc yn hytrach na rhoi amser i'r bobl ifanc ddatblygu syniadau drostynt eu hunain

## Ystafell Unigol 2:




(Gweler y *Jamboard* llawn trwy [glicio yma](#))

## Ystafell Unigol 3:

Interventions so that people don't leave Wales to pursue training or opportunities

Networking opportunities for young people in the Arts seems to be a strong theme

Bring back Youth Clubs!

I would agree that for youth projects to take place in a physical building space, which is competing for space with commercial opportunities, it needs funding support.

Gaps in pathways where people are having to leave, and often they don't come back

Youth communities in Wales to met other people and work together

Networking and learning, short courses, workshops

Worried about lack of opportunities - lack of access in Uni, lack of access to perform in general, worry that deaf young people may feel they have to move from Wales if they want to progress in their careers

Across Wales, deaf young people are quite isolated, let's bring people together!

What can we learn from the work Company 3 is doing? Monthly gatherings, time capsule, young people writing, workshops with guest artists etc

Brilliant work from Ballet Cymru in 7 schools funded by Paul Hamlyn - let's be working with more schools, this needs more funding

Buildings are being removed from community usage. Arts Council could do more to support buildings, ensure they remain for the purpose of arts and creativity

Excited about face-to-face experiences, being together, summer schools!

(Gweler y *Jamboard* llawn trwy glicio yma)

Yna daeth y grŵp ynghyd i drafod cyllido yn fanylach, gan ystyried yr hyn fyddent ei eisiau gan Gyllido Loteri penodol ar gyfer Celfyddydau Ieuenctid. Roedd rhai o'r sylwadau a'r sgyrsiau allweddol yn cynnwys:

- Fe ddychmygais i gael cronfa o hyd at £100,000 sydd ar gael i sefydliadau celfyddydol ond bod rhaid iddi weithio'n benodol ar gyfer pobl ifanc, a chael ei harwain gan bobl ifanc neu gyflogi pobl ifanc. Byddai'n gronfa y gallai sefydliadau ymgeisio iddi, ond byddai'r bobl ifanc yn dweud, mae'r gronfa hon yn benodol ar gyfer prosiectau sy'n canolbwyntio ar hyn
- Efallai y dylai pobl ifanc unigol allu ymgeisio am y cyllid hwnnw eu hunain, neu ar gyfer y sefydliadau / cydweithfeydd y maent wedi eu sefydlu eu hunain. Y sefydliadau mwyaf llwyddiannus gaiff eu harwain gan bobl ifanc yw'r rhai sydd wedi eu creu gan bobl ifanc, ac sydd wedi eu cynnwys o'r cychwyn cyntaf

- Rhoi’r cyfle i berson ifanc ymgeisio am swm rhwng £500 - £750 i’w fuddsoddi yn eu hunain, fel y mynnant, ac yna cyfannu hynny gyda phethau fel cysylltiadau trafnidiaeth - llwybrau penodol, neu fannau penodol y gallwch gael mynediad iddyn nhw am ddim
- Rwy’n credu ei fod yn golygu dileu rhwystrau ar gyfer pobl ifanc. A’r broses ymgeisio, yr holl elfennau ysgrifenedig, rwy’n credu bod hynny’n rhwystr aruthrol i bobl ifanc… Efallai y gallai pobl ifanc gyflwyno fideo yn dweud beth maent am ei wneud, ac yna wedi iddynt fynd trwodd i’r cam nesaf a derbyn cymorth gan fentor fel eu bod yn mireinio eu sgiliau a’u syniadau, ac yn gweithio tuag at fod yn arweinwyr y dyfodol fel eu bod yn dysgu sut i ysgrifennu ceisiadau
- Sut allwn ni wneud cyllido’n fwy hwyliog a hygyrch, yn hytrach na ‘ry’n ni’n dod nawr at fater difrifol cyllido’. Mae hynny wedi bod yn rhwystr i mi ar brydiau ac i’r bobl ifanc hefyd rwy’n credu oherwydd eu bod yn teimlo’n rhy bell oddi wrth y broses.
- Fe allen ni greu rhwydwaith o fannau all gyfeirio pobl at ofodau sydd am ddim ac ar gael.
- Cyllido sydd ddim yn ddibynnol ar iaith, ydi deall a siarad y jargon yna’n fy ngwneud yn fwy creadigol? Mannau ymuno, pam na allwn ni fod yn greadigol yn ein ceisiadau pan fyddwn ni’n ymgeisio am brosiect creadigol? Gwerthfawrogi gwreiddioldeb - pam fod cael enw o bwys yn rhoi mwy o hygrededd i mi, ’does gan bob person ifanc mo’r rhwydweithiau cywir. Mentro rhoi siawns i bobl ifanc er mwyn eu galluogi nhw i fentro gyda’u hymarfer eu hunain - mae methiant yn wers. Sut mae disgwyl inni gael ein rhoi ar ben y ffordd os nad oes ffordd? Cynnwys costau mentora mewn cyllid fel gofyniad penodol.
- Mae angen i Gelfyddydau Ieuenctid gael eu gwerthfawrogi gymaint â ‘Chelfyddydau i Oedolion’. A phan fo pobl ifanc yn creu gwaith ei fod yn cael ei weld, bod cyllidwyr yn gweld lefel ansawdd y gwaith (yn enwedig dros y cyfnod clo ac wrth symud ymlaen), pe gellid sicrhau rhyw symudiad fel bod gwerth celfyddydau ieuenctid a chelfyddydau oedolion yn cael eu hystyried yn gyfartal, yn hytrach nag fel Celfyddydau Ieuenctid ac yna’r Celfyddydau.
- Mae gennym ddarluniau mawr ar sut y gallwn newid y broses gyllido, ond hyd yma nid yw wedi newid, ac nid yw wedi datblygu ac fel egin-artist rydw i dal angen mynediad i’r arian yna, felly pe byddech chi fel sefydliadau celfyddydau ieuenctid yn agor eich drysau a chroesawu pobl ifanc i mewn i fod yn rhan o’r broses honno, byddai’n fuddiol iawn yn y cyfamser tan i newidiadau mawr ddigwydd.
- Rwy’n credu bod CCC wastad yn pryderu gormod am gyrraedd pobl sydd ‘heb ymgysylltu’ ond y dylai’r ffocws, yn hytrach, fod ar wneud pethau’n iawn ar gyfer y rheini SYDD yn ymgysylltu â’r celfyddydau eisoes, a phan gaiff hynny ei wneud yn iawn, byddant yn ymgysylltu â phobl sydd ddim yn ymwneud â’r celfyddydau eisoes. Felly byddai gwneud pethau’n iawn, er enghraifft yn golygu gwneud yn siŵr bod cyllid yn hygyrch, bod trafnidiaeth yn hygyrch, bod mentora yn hygyrch, bod ceisiadau’n hawdd i’w cwblhau. Ac yna, o wneud hynny, bydd y bobl ifanc ac unrhyw un arall, allai fod o

gefndiroedd Mwyafrif Byd-eang er enghraifft, wedi creu'r gelfyddyd honno ac oherwydd eu bod yn rhan o'u cymunedau eu hunain, byddant wedi ymgysylltu â phobl sydd heb ymgysylltu eisoes.

Roedd nodiadau o'r sgwrs Zoom yn cynnwys:

"The young people at Sparc launched a campaign called #OurSpace #LlenNi - to highlight the closure of their youth club they took this to Tate and pushed the Local Authority to re-open the club at least one night a week but again they needed the support of an organisation - they led it all but they needed access and resources"

"Start up project or fund, if we can't get rid of this applying for funding. Training in how and why we apply for funding."

"A shift towards work that is led and conceived by young people but they  are supported with resources and it's accessible - where the gaps are identified where they is little or no provision and addressed. Where young people can challenge the 'norms' of arts funding and influence change - there is a network that young people shape but don't have all the hassle of administrating / there are different groups - facilitator networks/ special interest groups - they can access ACW and Welsh Government and are the go too place to be heard"

"Rolling pots of money for projects and development. Decision panel are made up of young people peers. There is room to reflect at the end, but not a formalised evaluation/justification process – things can, will and should go 'wrong'.  Strategic flexibility pot to respond to live issues/situations.  Commitment from organisations to attend/view sharings of the work, but also not the pressure of having to share, an opportunity to see the work being developed and meet the artist – organisations come to the artist."

"Arts Council Wales funding has been wasted by portfolio organisations funding orgs that prioritise their most expensive staff who are only now scrabbling to make 'accessible' opportunities in a bid to keep their funding. We need to make sure that grassroots orgs get more funding that will actually be distributed to the people who need it."

"We are at a crisis point with young peoples mental health and wellbeing, youth arts is so crucial in helping to tackle this…. The pandemic has isolated young people and exacerbated this and now we need more funding and support to reach more young people!"

## Atodiad: Nodiadau Sesiwn 3

**Dydd Mawrth 27ain Gorffennaf, 5 – 7.30pm**

*Ar gyfer sefydliadau, gweithwyr llawrydd, pobl ifanc 16 – 25 oed*

*Nodau:*


- *I greu gofod ymlaciol, agored i gyfranogwyr rannu eu sylwadau*
- *I archwilio ymhellach y syniadau a'r heriau a drafodwyd yn y ddwy sesiwn flaenorol*
- *I ddynodi meysydd argymhellion ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru*
- *I ddynodi'r camau nesaf yr ydym am eu gweld gan Gyngor Celfyddydau Cymru*

Agorwyd y sesiwn olaf gyda chrynodeb o'r sgyrsiau a gafwyd hyd yma, dan arweiniad dau o'r hwyluswyr ifanc. Gan adeiladu ar y syniadau oedd wedi datblygu trwy gydol y ddau sesiwn blaenorol, rhannwyd y cyfranogwyr i ddwy ystafell unigol lai gyda thrafodaethau wedi'u hwyluso dan y penawdau canlynol:

- **Rhwydwaith i Bobl Ifanc**
- **Perthnasau a rolau Sefydliadau, Pobl Ifanc a Chyngor Celfyddydau Cymru**
- **Ariannu**

Roedd pynciau sgwrsio allweddol dan bob un o'r penawdau hyn yn cynnwys:

## Rhwydwaith ar gyfer pobl ifanc




(Gweler y *Jamboard* llawn trwy glicio yma)




(Gweler y *Jamboard* llawn trwy [glicio yma](#))

## Perthnasau a rolau Sefydliadau, Pobl Ifanc a Chyngor y Celfyddydau

- Doeddwn i erioed wedi clywed am fwrdd ieuenctid cyn ymuno yn y cyfarfodydd hyn. Ac wn i ddim os yw hynny oherwydd fy mod i wedi tyfu lan mewn grŵp dawns cymunedol bychan yn Llantrisant. Rwy'n credu y byddwn i, ar y dechrau, yn meddwl ei fod yn rhywbeth eithaf dychrynllyd. Dydw i ddim yn hyderus iawn yn siarad o flaen llawer o bobl, ond rwy'n credu ei fod yn rhywbeth y byddwn wedi gwthio fy hun ato. Ond rwy'n credu bod hynny oherwydd ei fod yn rhywbeth yr ydw i eisiau gyrfa ynddo. Ble mae pobl sy'n ei wneud fel diddordeb, sut allan nhw gymryd rhan, ac rwy'n meddwl y bydden nhw'n llai hyderus i wthio eu hunain ymlaen i ymuno. Rwy'n meddwl, yn enwedig pan oeddwn i'n iau a chyn imi wybod fy mod i'n siŵr fy mod am

ymwneud â'r celfyddydau fel gyrfa, rwy'n meddwl y byddai rhwydwaith cymdeithasol neu jest rhyw fath o drafodaeth grŵp wedi bod yn fwy defnyddiol i mi ar y cychwyn.

- Felly'r syniad fyddai, efallai, i bob sefydliad celfyddydol bychan fod â bwrdd ieuenctid neu grŵp ieuenctid sy'n ymgysylltu gyda phobl ifanc mewn modd anffurfiol a fyddai'n cael cyfle i enwebu person ifanc i eistedd ar fwrdd mwy. Hynny yw, bwrdd Cyngor Celfyddydau Cymru, ble byddant yn gweithredu fel seinfwrdd ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru, fyddai'n cwrdd bob tri mis efallai, a byddent yn gweithredu fel llysgenhadon dros bobl ifanc a'r celfyddydau ar ran y sefydliad, ond hefyd ar ran pobl ifanc yng Nghymru'n gyffredinol.

(Gweler y tri *Jamboard* canlynol trwy glicio yma)



Allow young people TIME - developing young people over a longer period of time, genuinely accruing skills that they can take forwards

More bursaries and paid opportunities, apprenticeships

Paid internships (delivered through Connect and Flourish), they were PAYE too

How do we support young people's pathways with creative careers?

Which age groups are we focusing on, and are we thinking beyond 16-25 too?

Diminishing of funding for training limiting possibilities for careers

Realism around careers in the arts

Arts isn't necessarily about careers. How it informs who we are in society. Culture is a part of everybody's life

---

Use the cultural contract. That will become a useful way of working - mutuality, sharing how we move forward together.

Engendering conversation and listening on many sides - e.g. council, committees, Arts Council needs to be responsive to the needs of communities, the listening needs to happen at their end

Have young people on the list of consultants

Arts Council seek council/advice of young people that things are for young people

Should it be a government fund? Rather than ACW? We just need the pot of money for access

Transparency!

Publicly admit what has been achieved!

Not simply being told by the Arts Council what we can and can't do. Collaboration and co-creation between us as sector at ACW to make it happen.

In Scotland they have additional legislation around BSL, I'm hoping we'll be able to do something here in Wales and that would achieve

Encourage deaf young people

How can you use your organisation to hold Arts Council of Wales accountable?

Arts Council need to say - we want this project to do X - we've sought advice from young people about whether it's wanted - if we don't deliver it please tell us why so we can achieve the aims next time

Additional pots from ACW to support access costs on top of what is there - commit to this, regardless of their barriers so all young people can access - a TOP UP FUND

We have 4 things that we will be doing, publish it, and account for it

unding for access costs - access costs for practitioners different from audience and participants

New forum, new means of communicating

Disrupt/change the usual transference of power

I know a lot of young people who are often refused and they don't have those opportunities

How can ACW make that change - we need legislation to make sure we have famous deaf young people, deaf actors

Asking young people in terms of barriers

In terms of access to theatre, deaf people and their access to theatre

## Cyllido




(Gweler y *Jamboard* llawn trwy [glicio yma](#))

- Weithiau mae rhaid ichi roi tic yn y blychau, i allu gwneud i'ch prosiect ffitio ar gyfer yr ariannu. Felly nid yw'n ymwneud bob amser â pheidio cael yr arian, ond yn hytrach mae'n ymwneud â chael eich cyfyngu o ran sut y mae rhaid ichi ei wario. Dychmygwch pe bae hynny'n cael ei ddileu, ac yna fe allech chi jest gadael i'r bobl ifanc wneud beth y maent am ei wneud a chreu celf gwych.
- Mae yna dybiaeth ymhlith cyllidwyr, neu ymhlith rhai o'r sefydliadau mawrion, efallai bod y cyllid mynediad ar gyfer caniatáu i bobl ifanc ddod atom ni, yn hytrach na meddwl ble mae'r bobl ifanc hynny? Beth maen nhw'n ei wneud eisoes? A sut allwn ni eu helpu? Mae'n teimlo fel bod pethau o chwith weithiau.
- Mae gwahaniaeth rhwng costau mynediad ar gyfer ymarferwyr a chyfranogwyr yn y modd y mae cyllido Cyngor y Celfyddydau'n gweithio ar hyn o bryd, oherwydd mae ymarferwyr cyflogedig yn gallu cynnwys eu costau mynediad ar ben cyllido'r prosiect, tra bo unrhyw gostau mynediad ar gyfer y gynulleidfa neu'r cyfranogwyr yn gorfod cael ei gynnwys yng nghyllid y prosiect.

- Dylid cael model mwy ymatebol ar gyfer costau mynediad oherwydd pan rydych chi'n rhedeg prosiect celfyddydau cyfranogol gyda phobl ifanc, pan ddewch chi at ddylunio'r prosiect ac ymgeisio am y cyllid, dydych chi ddim yn gwybod beth fydd anghenion mynediad eich grŵp felly rydych chi'n gorfod tynnu ffigyrau o'r awyr ar gyfer faint allwch chi ei gynnwys. Byddai'n llawer mwy synhwyrol gallu ymgeisio am hynny ar sail angen unwaith i'r prosiect gychwyn.
- Rwy'n meddwl gyda'r syniad yma am gyllido, mae barn pobl ifanc o bwys, ac mae pobl ifanc yn frwd ac mae'r rhai sy'n mynd i mewn i'r celfyddydau'n chwilio am y cyfleoedd hyn ac mae'n anodd allan yna ar hyn o bryd. Ddylai cyllido ddim bod yn fater dychrynllyd, dylai pob person ifanc deimlo fel bod ganddynt hawl i dderbyn y cyllid yma ac i fod yn y celfyddyau'n gyffredinol. Oherwydd mae'r celfyddydau'n rhoi gobaith i bobl ac mae'n ymwneud â chreadigedd a dylai fod yn hygyrch i bawb.

Daeth y sesiwn i ben gyda thrafodaeth fanylach ar sut y gellid mireinio'r sgyrsiau hyn yn argymhellion allweddol y dylid eu hadrodd yn ôl i Gyngor Celfyddydau Cymru, ynghylch yr hyn y mae sefydliadau, gweithwyr llawrydd ac ymarferwyr ei eisiau nesaf gan Gyngor y Celfyddydau. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr fyfyrio ar beth fyddai eu un argymhelliad allweddol, ac i rannu hyn yn y sgwrs.

**Dyma'r argymhellion terfynol a gyflwynwyd:**

- Darparu platfform er mwyn i bobl ifanc fynegi eu Celfyddyd
- Ychydig yn rhagor o sgwrsio, (ac ychydig yn rhagor o weithredu os gwelwch yn dda!)
- Pobl ifanc i gael gwir gyfraniad wrth lunio penderfyniadau yn y sector celfyddydau ieuenctid - nid dim ond "cynghori" neu "ddylanwadu"! Gwneud penderfyniadau ar gyllido prosiectau celfyddydau ieuenctid, cynhyrchu eu prosiectau eu hunain gyda chefnogaeth sefydliadau, cael mynediad i'w cronfeydd cyllid eu hunain gyda chefnogaeth sefydliadau, eistedd ar Gyngor CCC, eistedd ar fyrddau sefydliadau fel aelodau llawn
- Cyfleoedd a llwybrau niferus sy'n caniatáu i'r sector Celfyddydau Ieuenctid fod yr hyn y mae angen iddo fod ar gyfer pob person ifanc, sy'n wahanol i bob unigolyn a ble nad yw un maint yn gweddu i bawb!
- Gwneud pobl ifanc yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd yna ar gyfer cyllido ayyb
- Creu gofod ar gyfer egin-artistiaid
- Pobl ifanc yn Ysbrydoli, Dylunio, Penderfynu, Newid, Ffynnu
- Rhwydwaith ar gyfer pobl ifanc i gael mynediad at gyfleoedd sy'n caniatáu ar gyfer celfyddydau mwy amrywiol. Wedi ei redeg gan bobl ifanc
- Cynyddu a datblygu llwybrau cynnydd yn enwedig ar gyfer dawns. Ry'n ni angen i'r bobl ifanc allu aros a hyfforddi yng Nghymru.
- DYFODOL DIM-FFAFF (CYLLIDO, CYFEILLGARWCH)
- Mwy o gyfleoedd ar gyfer cydweithio, hyfforddi yng Nghymru, cyllid i bobl ifanc gael eu mentora wrth ystyried / datblygu eu prosiect.

- Cynnwys pobl ifanc yn y broses llunio penderfyniadau *go iawn* a sicrhau bod ganddynt wir weithrediad
- Bwrdd ieuenctid CCC wedi ei greu o lysgenhadon ifanc o wahanol sefydliadau celfyddydau
- Creu rhwydwaith o fentoriaid, grwpiau, pobl ifanc
- Pobl Ifanc ar Gyngor CCC - Yn dal llaw ei gilydd - Mae’r perthnasau hyn yn allweddol!
- Hyfforddiant wedi ei leoli yng Nghymru ar gyfer egin-artistiaid.

Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru
National Youth Arts Wales

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Noddir gan Llywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government